



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cloddio data Cymru:

*Y proffil blynyddol ar gyfer
camddefnyddio sylweddau*

2024/25

**Adroddiad ystadegol blynyddol ar ddefnyddio alcohol a
chyffuriau o setiau data gwasanaethau iechyd, gofal
cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol yng Nghymru**

Am Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau yn gweithio i fynd i'r afael â'r bygythiadau iechyd cyhoeddus presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a hynny yn unol â'r amcan strategol cyffredinol i 'leihau anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd, ac atal neu leihau clefydau trosglwyddadwy a chlefydau anhrosglwyddadwy, niwed ehangach a marwolaethau cynamserol sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol ac ymddygiadau risg cysylltiedig'.

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Capital Quarter

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Manylion cyswllt

Rick Lines, Pennaeth y Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tŷ Matrix, Boulevard y Gogledd, Parc Matrix, Parc Menter Abertawe, SA6 8DP, Rick.Lines@wales.nhs.uk

Savannah King, Epidemiolegydd (Arbenigwr Dadansoddwr Gwybodaeth), Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, CF10 4BZ, Savannah.King@wales.nhs.uk

Cydnabyddiaethau:

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb a gyfrannodd at y systemau data a gwyliadwriaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn. Gyda diolch arbennig i Elizabeth Walsh (IGDC) a chydweithwyr yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd, DU.

Cyfeiriad a Awgrymir: Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2024/25 Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

1 Cyflwyniad	6
2 Crynodeb Gweithredol	7
Tueddiadau lefel poblogaeth	7
3 Prif dueddiadau poblogaeth.....	9
3.1 Derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol ac o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon	9
3.2 Marwolaethau o ganlyniad i alcohol a marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau.....	10
4 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â defnyddio alcohol	12
4.1 Derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol ac y gellir eu priodoli i alcohol	12
4.2 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol yn ôl ardal awdurdod lleol yng Nghymru	13
5 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon	18
5.1 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon.....	18
5.2 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno yn ôl math o sylwedd	18
5.3 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn ôl ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru.....	21
6 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau: derbyniadau seiciatrig	24
7 Camddefnyddio sylweddau ac amddifadedd	25
8 Asesiadau gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol	27
8.1 Asesiadau yn ôl y prif sylwedd ymgylwyno ac ardal Bwrdd Iechyd.....	27
8.2 Unigolion sy'n newydd i wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol	30
9 Iechyd cyn ac ar ôl geni.....	32
9.1 Ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithir arnynt gan ddefnydd gan y fam o gyffuriau sy'n achosi dibyniaeth, neu gan ddiddychu o ddibyniaeth arnynt.....	32
10 Plant a phobl ifanc (hyd at 24 oed).....	33
10.1 Plant sy'n derbyn gofal a chymorth	33
10.2 Gwaharddiadau o'r ysgol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau.....	33
10.3 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol ymhlith plant a phobl ifanc	34
10.4 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith plant a phobl ifanc.....	36
10.5 Asesiadau mewn gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau arbenigol ymhlith plant a phobl ifanc.....	38
11 Oedolion rhwng 25 a 49 oed	41
11.1 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol, oedolion 25-49 oed.....	41

11.2 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion 25-49 oed.....	42
11.3 Asesiad gan wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau, oedolion 25-49 oed	44
12 Oedolyn hŷn, 50 oed a hŷn.....	47
12.1 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol, oedolion hŷn.....	47
12.2 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion hŷn	48
12.3 Asesiad gan wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau, oedolion hŷn	50
13 Defnydd wedi'i hunan-adrodd o gyffuriau anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: oedolion 16-59 oed	53
14 Defnyddio cyffuriau drwy chwistrellu: ymddygiadau risg a firysau a gludir yn y gwaed .55	
14.1 Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau	55
14.2 Ymddygiadau risg ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau	58
14.3 Cyffredinrwydd haint firws a gludir yn y gwaed ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau	59
14.3 Amcangyfrifon o ddefnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yng Nghymru	60
15 Marwolaethau cysylltiedig ag alcohol	61
15.1 Marwolaethau penodol i alcohol yn ôl blwyddyn gofrestru	61
15.2 Marwolaethau penodol i alcohol yn ôl rhyw a grŵp oedran	62
15.3 Cyfraddau marwolaethau penodol i alcohol yng Nghymru yn ôl ardal Bwrdd Iechyd	62
15.3 Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol	63
16 Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau	66
16.1 Marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau yn ôl rhyw a grŵp oedran	66
16.2 Marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ôl rhyw a grŵp oedran	67
16.3 Marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yn ôl sylweddau wedi'u hadrodd	68
16.4 Marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ôl ardal Bwrdd Iechyd	69
17 Troseddau cyffuriau wedi'u cofnodi gan yr heddlu a phurdeb cyffuriau wedi'u hatafael gan yr heddlu: pob oedran	72
17.1 Troseddau cyffuriau wedi'u cofnodi yng Nghymru	72
17.2 Atafaelu cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru	73
17.3 Pris a phurdeb cyffuriau anghyfreithlon dethol – y DU	75
18 Atodiadau	76
Atodiad A: Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol - diffiniadau	76
Atodiad B: Marwolaethau cysylltiedig ag alcohol - diffiniadau	85
Atodiad C: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon - diffiniadau. 88	

Atodiad D Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau - diffiniadau	90
Atodiad E: Cyfyngau Hyder	92
Atodiad F: Cyfrifo cyfraddau poblogaeth o ran derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau a dangosyddion iechyd y cyhoedd eraill	93
Atodiad G: Defnyddio cyffuriau mewn ffordd problemus: diffiniadau ac amcangyfrifon o gyffredinolrwydd	94

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad ystadegol hwn yn rhoi crynodeb o ddata sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a adroddir yn rheolaidd ac sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Cymru. Tynnir tystiolaeth o nifer o ffynonellau data gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol a'r Swyddfa Gartref. Y bwriad yw i'r adroddiad hwn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag adroddiad Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru¹ ar ddata triniaeth a'r adroddiad Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau² ar gyfer yr un cyfnod er mwyn darparu proffil cyflawn o ba mor eang yw camddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol) yng Nghymru, a'i natur.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro i ystyried y dystiolaeth sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau dros gwrs bywyd yn well, o ddefnydd o gyffuriau ac ysmegu cynenedigol ac ymhlith mamau, hyd at gamddefnyddio sylweddau ymhlith oedolion hŷn. Bydd y proffil hefyd yn dangos tystiolaeth o amrywiadau daearyddol yn yr elfennau niweidiol i iechyd sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol o ran derbyniadau i'r ysbyty, cyfraddau clefydau, a marwolaethau, gan ganolbwyntio ar dueddiadau dros amser.

Yn Adrannau 3 i 7, mae'r adroddiad yn cyflwyno data sy'n seiliedig ar y boblogaeth sy'n ymwneud â defnydd hunan-adroddedig a mesurau gwrthrychol gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty er mwyn rhoi trosolwg o ba mor eang yw elfennau niweidiol i iechyd ac ymddygiad risg sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru, yn ogystal â'u cyd-destun. Yna bydd yr adrannau dilynol yn canolbwyntio ar grwpiau oedran penodol: Plant a phobl ifanc (0-24 oed), oedolion oedran gweithio (25-49 oed) ac oedolion hŷn (50 oed a hŷn) a, lle mae data ar gael, yn rhoi proffil daearyddol yn ôl bwrdd iechyd ac awdurdod lleol. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn adnodd hanfodol i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu a chynllunio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cysylltiedig sy'n atal ac/neu'n mynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb ehangach ym maes camddefnyddio sylweddau, a phenderfynyddion a goblygiadau cymdeithasol ehangach.

Ni ddylid dehongli'r data a gyflwynir yma ar gyfer 2021 a 2022 yn rhan o ddadansoddiad tueddiadau parhaus o ystyried yr aflonyddwch sylweddol i wasanaethau arferol yn ystod pandemig COVID-19. Mae felly'n adlewyrchu'r heriau y mae'r holl wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol a'r unigolion sy'n eu defnyddio yn eu hwynebu. Yn fwy cyffredinol, ni ddylid defnyddio data un flwyddyn unigol i ddadansoddi na chasglu unrhyw newidiadau gwirioneddol yn y boblogaeth sy'n defnyddio sylweddau.

1 Llywodraeth Cymru, Camddefnyddio sylweddau: Ionawr 2013 i Ragfyr 2024

Data yn cynnwys gwybodaeth am bobl a welwyd yn asiantaethau trin cyffuriau ac alcohol ar gyfer Ionawr 2013 i Ragfyr 2024. Ar gael yn: Camddefnyddio sylweddau: Ionawr 2013 i Ragfyr 2024 | LLYW.CYMRU

² Iechyd Cyhoeddus Cymru: Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau 2024. Ar gael yn:

<https://icc.qig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/cronfa-ddata-lleihau-niwed-cymru-marwolaethau-syn-gysylltiedig-a-chyffuriau/>

2 Crynodeb Gweithredol

Tueddiadau lefel poblogaeth

- Cafodd mwy na dwywaith cymaint o unigolion eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol nag oherwydd eu bod wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2024/25, er bod cyfraddau'r ddau wedi parhau i ostwng yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd cyfanswm y derbyniadau o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol 8.0 y cant a gostyngodd cyfanswm y derbyniadau yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon 5.4 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Opioidau yw'r grŵp sylweddau sy'n gysylltiedig â'r nifer a'r gyfradd uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth o dderbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon, er bod hyn wedi gostwng yn gyson dros y blynnyddoedd diwethaf.
- Dros y pum mlynedd diwethaf, mae derbyniadau oherwydd rhesymau seiciatrïg wedi gostwng 31.9 y cant o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol a 42.3 y cant o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon.
- Roedd cyfran yr holl gleifion a gafodd eu derbyn oherwydd cyflyrau penodol i alcohol sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 2.9 gwaith yn uwch na'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. O ran defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, roedd y gyfran 5.8 gwaith yn uwch.
- Roedd nifer yr unigolion unigryw wedi'u hasesu mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yng Nghymru wedi gostwng 2.5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae bellach 16.7 y cant yn is nag yn 2020/21. O'r holl asesiadau, roedd 46.0 y cant yn gleientiaid yr oedd alcohol yn brif broblem iddynt, roedd 44.2 y cant yn gleientiaid yr oedd cyffuriau yn brif broblem iddynt, ac nid oedd sylwedd wedi'i gofnodi ar gyfer y 9.6 y cant arall.
- Roedd 538 o farwolaethau penodol i alcohol wedi'u cofrestru yn 2024, sef gostyngiad o 4.3 y cant, yn dilyn y nifer uchaf wedi'i gofnodi yn 2023. Yn 2024, cynyddodd nifer y marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau wedi'u cofrestru yn sylweddol i 288 o farwolaethau, sef cynnydd o 13.8 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r nifer uchaf o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau wedi'i gofnodi erioed. Mae nifer y marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau wedi cynyddu'n gynt na marwolaethau eraill sydd o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.

Plant a phobl ifanc (iau na 25 oed)

- Parhaodd nifer y gwaharddiadau o ysgolion yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol yn uchel yn ystod blwyddyn academiaidd 2023/24. Roedd cyfanswm o 936 o'r gwaharddiadau hyn ymhlith plant oedran ysgol, gan barhau'n sefydlog o'r flwyddyn academiaidd flaenorol.
- Yn 2024/25, roedd 341 o dderbyniadau yn ymwneud â phobl ifanc iau na 25 oed gyda chyflwr penodol i alcohol, sef cynnydd o 13.0 y cant o'i gymharu â 2023/24. Bu gostyngiad o 10.3 y cant yn nifer y derbyniadau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon (611 o dderbyniadau) ymhlith y garfan oedran hon.

- Canabis oedd y sylwedd wedi'i adrodd amlaf ar gyfer asesiadau ymhlith y grŵp oedran hwn (35.1 y cant o asesiadau), ac yna alcohol (28.0 y cant). Mae nifer yr asesiadau ar gyfer cocên a chrac cocên wedi cynyddu 34.1 y cant yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd yng Nghymru yn y grŵp oedran hwn, roedd y rhan fwyaf wedi nodi eu bod yn defnyddio cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd (89.3 y cant).

Oedolion 25-49 oed

- Mae derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol ac o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon wedi gostwng 9.5 y cant a 3.9 y cant yn y drefn honno o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd opioidau yn cyfrif am fwy o dderbyniadau i'r ysbyty nag unrhyw grŵp sylweddau anghyfreithlon arall o hyd, sef 31.2 y cant o dderbyniadau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon yn y grŵp oedran hwn.
- Cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd oedd y grŵp sylweddau wedi'i adrodd amlaf (64.0 y cant) ymhlith unigolion a oedd yn defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd, ac yna opioidau (32.6 y cant).
- Ymhlith y rhai a oedd yn defnyddio gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau, y sylwedd problemus wedi'i adrodd amlaf oedd alcohol (42.3 y cant) ac yna opioidau (20.5 y cant). Mae nifer yr asesiadau ar gyfer cocên a chrac cocên yn parhau i gynyddu ac wedi cynyddu 67.8 y cant yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Roedd marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau ar eu huchaf yn y categori oedran 40-49, gan gyfrif am 33.7 y cant o'r holl farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau (n=97) wedi'u cofrestru yn 2024.

Oedolion hŷn, 50 oed a hŷn

- Roedd unigolion 50 oed a hŷn yn cyfrif am 67.4 y cant o'r holl rai wedi'u derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol, a 30.0 y cant o'r holl rai wedi'u derbyn i'r ysbyty yn dilyn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2025/25. Mae'r cyfrannau hyn wedi parhau'n gymharol sefydlog ers y blynyddoedd diwethaf.
- Mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, roedd alcohol yn cyfrif am 71.6 y cant o asesiadau ac opioidau am 12.7 y cant ohonynt. Mae asesiadau ar gyfer alcohol ac opioidau wedi gostwng ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf tra bod asesiadau ar gyfer cocên a chrac cocên wedi mwy na dyblu yn y garfan oedran hon yn ystod y pum mlynedd diwethaf, er bod lefelau'n parhau i fod yn is nag mewn grwpiau oedran eraill.
- Roedd unigolion sy'n defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd yn y garfan oedran hon yn adrodd eu bod yn defnyddio opioidau amlaf (49.1 y cant) ac yna gyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd (45.0 y cant).
- Y garfan oedran hon oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf (77.1 y cant) o farwolaethau penodol i alcohol yn 2024, yn enwedig dynion 50-69 oed.

3 Prif dueddiadau poblogaeth

3.1 Derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol ac o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon

Mae derbyniadau i'r ysbyty yn fesur a gaiff ei ddefnyddio'n gyffredin i asesu effeithiau niweidiol alcohol a chyffuriau anghyfreithlon i unigolion. Er ei bod yn debygol o adlewyrchu'r effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â defnydd ym mhen mwy problemus y sbectrwm defnyddio alcohol a chyffuriau, gall ffigurau ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty roi mesur defnyddiol ac, yn bwysicach fyth, gyson o'r effeithiau niweidiol hyn dros amser. Disgrifir rhai o'r cymhlethdodau a'r diffiniadau sy'n gysylltiedig â defnyddio data derbyniadau i'r ysbyty yn fanwl yn Atodiadau A i C y ddogfen hon.


Dangosir derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol a chyffuriau anghyfreithlon yn ôl blwyddyn yn Ffigur 1. Yn 2024/25, roedd:

- 3,837 o dderbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon a oedd yn ymwneud â 3,254 o unigolion unigryw
- 12,538 o dderbyniadau yn benodol i alcohol a oedd yn ymwneud â 8,357 o unigolion unigryw

Fel y gwelir o Ffigur 1, mae derbyniadau ar gyfer grwpiau oedran gwahanol yn gymharol sefydlog dros amser. Gwelir niferoedd cymharol o dderbyniadau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon ac alcohol o'r grwpiau oedran 10-14 hyd at y grŵp oedran 35-39. Ar gyfer grwpiau oedran dilynol, mae derbyniadau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon yn gostwng yn gyson tra bod y rhai o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn parhau i gynyddu, gan gyrraedd uchafbwynt yn y grŵp oedran 55-59.

Ers 2011/12, y grwpiau oedran mwyaf cyffredin a gaiff eu derbyn oherwydd rhesymau penodol i alcohol yw'r rhai hŷn na 50 oed. Yn 2023/24, roedd y rhai hŷn na 50 oed yn cyfrif am 66.9 y cant o'r holl unigolion wedi'u derbyn o'u cymharu â 29.6 y cant yn y grŵp oedran 25-49 a 3.5 y cant yn y rhai iau na 25 oed.

Yn 2024/25, ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty yn seiliedig ar berson yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, y grwpiau oedran mwyaf cyffredin wedi'u cofnodi oedd pobl 25-49 oed, sef 53.2 y cant o'r holl unigolion wedi'u derbyn, gyda 30.9 y cant pellach yn rhai hŷn na 50 oed a'r 15.9 y cant arall yn iau na 25 oed. Mae'r dosbarthiad oedran hwn yn parhau'n gymharol sefydlog dros amser.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 1: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyfflyrau penodol i alcohol a chyffuriau anghyfreithlon, 2020/21 i 2024/25, yn ôl cwntel oedran

3.2 Marwolaethau o ganlyniad i alcohol a marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon ac alcohol yn dangos patrymau oedran brig penodol. Yn 2024, cyrhaeddodd marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon uchafbwynt yn y grŵp oedran 40-44 ac yn y grŵp oedran 55-59 ar gyfer marwolaethau penodol i alcohol, fel y dangosir yn Ffigur 2. Mae marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon yn digwydd yn bennaf rhwng yr oedranau 20-24 a 65-69, gyda niferoedd isel iawn wedi'u cofnodi ymhlith oedolion hŷn, tra bod ystod oedran ehangach i'w gweld ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i alcohol, o 30-34 hyd at 80-84 oed. Mae'r holl ddata ynghylch marwolaethau yn yr adroddiad hwn wedi'i gofnodi yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025

Ffigwr 2: Marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau a chyflyrau penodol i alcohol, Cymru, 2020-2024, yn ôl cwintel oedran.

4 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â defnyddio alcohol

4.1 Derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol ac y gellir eu priodoli i alcohol

Yn gyffredin, diffiniad 'cyflyrau penodol i alcohol' yw'r cyflyrau hynny wedi'u priodoli heb os i ddefnyddio alcohol. Mae hyn yn cynnwys clefyd yr iau/afu alcoholaidd Yn ddiweddar, mae mesurau ychwanegol sy'n gysylltiedig â 'chyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol' wedi cael eu trafod yn fwy aml yn y llenyddiaeth sy'n gwerthuso effeithiau niweidiol alcohol. Mae mesurau wedi'u priodoli i alcohol yn cynnwys y cyflyrau hynny sydd wedi'u gwerthuso'n rhai a gaiff eu hachosi'n rhannol, ond nid yn llwyr, gan yfed alcohol o'u hystyried ar draws y boblogaeth gyfan. Felly mae ffigurau wedi'u priodoli i alcohol yn ychwanegu dimensiwn pellach at ddadansoddiad o effeithiau niweidiol alcohol. Gellir disgrifio derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol a derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol mewn mesurau 'yn seiliedig ar berson' (nifer yr unigolion a gaiff eu derbyn mewn cyfnod penodol o amser, gyda phob un yn cael ei gyfrif unwaith yn unig) neu fesurau 'yn seiliedig ar dderbyniadau' (lle mae holl dderbyniadau pob unigolyn wedi'u cynnwys, gan y gall un unigolyn yn aml gael ei dderbyn ar fwy nag un achlysur mewn blwyddyn benodol). Gweler Atodiad A am ddisgrifiad mwy manwl.

Mae Tabl 1 yn dangos ffigurau manwl ar gyfer dangosyddion alcohol allweddol ledled Cymru am y pum mlynedd diweddaraf. Cafodd 8,358 o unigolion unigryw gyda chyflwr penodol i alcohol eu derbyn mewn unrhyw safle diagnostig yn 2024/25, sef 12,541 o dderbyniadau. Mae nifer yr unigolion unigryw a gafodd eu derbyn o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol wedi gostwng ychydig dros y 5 mlynedd diwethaf, o 9.2 ers 2020/21.

Y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran ar gyfer derbyniadau yn benodol i alcohol oedd 245 o bobl fesul 100,000 o'r boblogaeth. Nifer yr unigolion unigryw a gafodd eu derbyn o ganlyniad i gyflwr y gellir ei briodoli i alcohol yn 2024/25 oedd 33,316, gan barhau'n sefydlog o'r flwyddyn flaenorol. Cafodd cyflwr y gellir ei briodoli i alcohol ei gofnodi yn y prif safle ar gyfer 10,773 o unigolion.

Tabl 1: Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol ymhlith trigolion Cymru, yn ôl dangosydd, rhyw a blynyddoedd 2019/20 i 2023/24

	Rhyw	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Nifer yr unigolion a dderbyniwyd i'r ysbyty a chyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw safle diagnostig	Nifer yr Unigolion	9,201	9,727	9,116	9,043	8,358
	Gwryw	5,917	6,305	5,997	6,015	5,487
	Benyw	3,284	3,422	3,119	3,028	2,871
Nifer y derbyniadau i'r ysbyty a chyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw safle diagnostig	Nifer yr Unigolion	14,061	14,825	13,625	13,637	12,541
	Gwryw	9,141	9,660	9,008	9,065	8,203
	Benyw	4,920	5,165	4,617	4,572	4,338
Nifer y derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol, mesur bras, seiliedig ar bobl	Nifer yr Unigolion	28,466	32,797	32,714	33,793	33,316
	Gwryw	18,363	21,048	21,031	21,762	21,358
	Benyw	10,103	11,749	11,683	12,031	11,958
Derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol, mesur bras, seiliedig ar gyfnodau	Nifer yr Unigolion	45,008	52,672	52,123	54,138	52,080
	Gwryw	29,261	34,140	33,648	35,143	33,574
	Benyw	15,747	18,532	18,475	18,995	18,506

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

4.2 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol yn ôl ardal awdurdod lleol yng Nghymru

Roedd amrywiad daearyddol sylweddol yng nghyfraddau safonedig (gweler Atodiad F) derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol ledled Cymru fel y dangosir yn Nhabl 2. Ardal Awdurdod Lleol Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf gyda 394 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol. Mae hyn fwy na 2 gwaith yn uwch na'r gyfradd gymharol wedi'i chofnodi yn Ynys Môn, yr Awdurdod Lleol gyda'r cyfraddau isaf yng Nghymru sef 166 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth.


Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gostyngiad wedi bod yng nghyfraddau'r unigolion a gafodd eu derbyn gyda chyflwr penodol i alcohol yn 16 o'r 22 ardal Awdurdod Lleol. Roedd y gostyngiad mwyaf yn Ynys Môn, sef 34 y cant. I'r gwrthwyneb, roedd cynnydd yn 5 o'r 22 ardal Awdurdod Lleol. Yn Sir Benfro yr oedd y cynnydd mwyaf, sef 19 y cant. Arhosodd un Awdurdod Lleol yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Mae Ffigur 3 yn rhoi cynrychiolaeth

weledol o'r Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol yn 2024/25 yn ôl ardal Awdurdod Lleol.

Tabl 2: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru a gafodd eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gyflwr penodol i alcohol mewn unrhyw safle, 2024/25, yn ôl ardal Awdurdod Lleol

Ardal Bwrdd Iechyd	Ardal Awdurdod Lleol	EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth 2024/25	Newid ers 2023/24	Newid ers 2019/20
Aneurin Bevan	Blaenau Gwent	394	9%	-23%
	Caerffili	311	-3%	-21%
	Casnewydd	301	0%	-20%
	Sir Fynwy	198	-5%	-33%
	Torfaen	287	13%	-18%
Bae Abertawe	Abertawe	205	-4%	-24%
	Castell-nedd Port Talbot	216	-10%	-23%
Betsi Cadwaladr	Conwy	234	-22%	-41%
	Gwynedd	175	-32%	-43%
	Sir Ddinbych	275	-18%	-31%
	Sir y Fflint	283	-10%	-20%
	Wrecsam	300	-22%	-16%
	Ynys Mon	166	-34%	-51%
Caerdydd a'r Fro	Bro Morgannwg	209	3%	-37%
	Caerdydd	213	-8%	-31%
Cwm Taf Morgannwg	Merthyr Tudful	343	-11%	-17%
	Pen-y-bont ar Ogwr	243	3%	-4%
	Rhondda Cynon Taf	286	-3%	-16%
Hywel Dda	Ceredigion	225	-15%	-5%
	Sir Benfro	262	19%	-6%
	Sir Gaerfyrddin	242	-17%	-26%
Powys	Powys	174	-9%	-32%
Cymru	Cymru	245	-8%	-25%

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025



Ffigur 3: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflwr penodol i alcohol mewn unrhyw safle, 2023/24, yn ôl ardal Awdurdod Lleol, Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran


Mae Tabl 3 a Ffigur 4 yn dangos y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol (mesur eang yn seiliedig ar berson) yn 2024/25. Blaenau Gwent oedd yr ardal awdurdod lleol gyda'r gyfradd uchaf o dderbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol, sef 1,493 o dderbyniadau yn seiliedig ar berson fesul 100,000 o'r boblogaeth. Cafodd y gyfradd isaf ei chofnodi yng Ngwynedd, sef 766 o dderbyniadau yn seiliedig ar berson fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd gostyngiad yn nifer y derbyniadau yn gysylltiedig ag alcohol yn 11 o'r 22 ardal Awdurdod Lleol. Y gostyngiad cyfrannol uchaf yn y gyfradd oedd Ynys Môn, sef gostyngiad o 25 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r 11 ardal Awdurdod Lleol arall wedi gweld cynnydd mewn derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol. Roedd cynnydd o 14 y cant yn Sir Benfro, yr Awdurdod Lleol gyda'r cynnydd uchaf.

Tabl 3: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru, mesur eang yn seiliedig ar berson, 2023/24, yn ôl ardal Awdurdod Lleol.

Ardal Bwrdd Iechyd	Ardal Awdurdod Lleol	EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth 2024/25	Newid ers 2023/24	Newid ers 2019/20
Aneurin Bevan	Blaenau Gwent	1,493	12%	-9%
	Caerffili	1,418	8%	2%
	Casnewydd	1,316	2%	4%
	Sir Fynwy	1,029	3%	-1%
	Torfaen	1,340	13%	2%
Bae Abertawe	Abertawe	947	-1%	-13%
	Castell-nedd Port Talbot	1,016	2%	-13%
Betsi Cadwaladr	Conwy	770	-23%	-33%
	Gwynedd	766	-24%	-28%
	Sir Ddinbych	861	-19%	-28%
	Sir y Fflint	1,003	-8%	-14%
	Wrecsam	995	-17%	-16%
	Ynys Mon	775	-25%	-31%
Caerdydd a'r Fro	Bro Morgannwg	838	1%	-29%
	Caerdydd	880	2%	-21%
Cwm Taf Morgannwg	Merthyr Tudful	1,184	5%	-5%
	Pen-y-bont ar Ogwr	953	-3%	-15%
	Rhondda Cynon Taf	1,048	8%	-10%
Hywel Dda	Ceredigion	892	-2%	-7%
	Sir Benfro	1,070	14%	4%
	Sir Gaerfyrddin	1,107	-2%	-1%
Powys	Powys	836	-16%	-26%
Cymru	Cymru	1,008	-2%	-13%

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025




Ffigur 4: Derbyniadau i'r ysbyty wedi'u priodoli i alcohol, Unigolion sy'n byw yng Nghymru, mesur eang yn seiliedig ar gyfnodau, 2024/25, yn ôl ardal Awdurdod Lleol, Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran

5 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon

5.1 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon

Yn gyffredinol, mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon sydd wedi'u henwi wedi gostwng 5.4 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o 4,055 yn 2023/24 i 3,837 yn 2024/25. O'i gymharu â 2020/21 bu gostyngiad o 30.9 y cant yn nifer y derbyniadau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon. Nifer yr unigolion unigryw wedi'u derbyn o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon yn 2024/25 oedd 3,026, gostyngiad o 6.4 y cant o 3,232 yn 2023/24. Mae nifer y dynion a'r menywod wedi'u derbyn wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Dangosir nifer yr unigolion (gyda data rhyw ar gael) wedi'u derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon dros y naw mlynedd diwethaf yn Ffigur 5.




Ffigur 5: Unigolion sy'n byw yng Nghymru wedi'u derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gyflwr sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon, yn ôl blwyddyn a rhyw 2020/21 i 2024/25

5.2 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno yn ôl math o sylwedd

Fel y dangosir yn Ffigur 6, mae'r Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Cafodd isafswm newydd o 126.1 o dderbyniadau i'r ysbyty ei gofnodi ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Gostyngodd y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer derbyniadau o ganlyniad i opioidau 11.3 y cant yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn

flaenorol. Mae'r Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran ar gyfer derbyniadau o ganlyniad i bob math o sylwedd wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf. Dylid dehongli'r duedd hon yn ofalus, gan fod oedi wrth gofnodi data yn bosibl a gall arwain at danamcangyfrif y niferoedd diweddaraf.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigwr 6: Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon, trigolion Cymru, Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl math o sylwedd 2020/21 i 2024/25

5.2.1 Opioidau


Opioidau yw'r grŵp sylweddau sy'n gysylltiedig â'r nifer uchaf o unigolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a'r nifer uchaf o dderbyniadau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon. Yn 2024/25, cafodd cyfanswm o 1,161 o unigolion eu derbyn, sef cyfanswm o 1,329 o dderbyniadau yn gysylltiedig ag opioidau, sef gostyngiad o 8.5 y cant a 10.4 y cant yn y drefn honno o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran ar gyfer derbyniadau yn gysylltiedig ag opioidau yn 2023/24 oedd 43.8 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef 11.3 y cant yn is na'r gyfradd wedi'i chofnodi ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

5.2.2 Canabinoidau

Canabinoidau yw'r ail grŵp sylweddau uchaf gyda 963 o dderbyniadau i'r ysbyty yn 2024/25 yn ymwneud ag 880 o unigolion wedi'u derbyn. Bu gostyngiad o 6.1 y cant yn nifer y derbyniadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (1,026 o dderbyniadau yn 2022/23). Y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran ar gyfer derbyniadau o ganlyniad i ganabinoid oedd 31.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023/24. Mae hyn yn parhau â'r

gostyngiad cyson dros y 5 mlynedd diwethaf o 40.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2020/21.

Mae'n bwysig nodi nad oes modd gwahaniaethu rhwng data derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gynhyrchion canabinoid: resin cannabis, straen cryfach o ganabis llysieuol 'skunk'; neu ffurfiau mwy newydd o weithyddion derbynyddion canabinoidau synthetig (SCRAs), y cyfeirir atynt weithiau fel 'Sbeis'. Mae Prosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru (WEDINOS), prosiect sy'n profi ac yn proffilio sylweddau wedi'u cyflwyno o bob cwr o'r DU, yn darparu tystiolaeth o farchnad sylweddol ar gyfer SCRAs yng Nghymru ymhlith poblogaethau agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd yn y carchar.³ Yn ogystal â hyn, mae Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) wedi nodi cynnydd yng nghryfder ffurfiau resin cannabis a chanabis llysieuol yn ystod y blyneddau diwethaf.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 7: Unigolion wedi'u derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon sydd wedi'u henwi, Cymru 2020/21 i 2024/25

5.2.3 Cocên

Yn y gorffennol, roedd y cynnydd mwyaf mewn derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon yn ymwneud â chocên, fodd bynnag, mae derbyniadau wedi gostwng ychydig dros y blyneddau diwethaf, gan barhau'n gymharol sefydlog ar y cyfan. Yn 2024/25 roedd 387 o dderbyniadau yn gysylltiedig â chocên a oedd yn ymwneud â 362 o

³ WEDINOS (2023) Adroddiad blynyddol Philtre, 2022-2023. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: <https://www.wedinos.org/resources/downloads/Annual-Report-22-23%20Welsh.pdf>

unigolion. Mae'n bosibl bod y cynnydd cychwynnol o ganlyniad i gynnydd mewn argaeled a phurdeb cocên powdr a chrac cocên fel y manylir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ac fel y dangosir gan Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA).^{4,5}

5.2.4 Bensodiasepinau

Yn 2024/25, roedd 207 o dderbyniadau yn gysylltiedig â bensodiasepinau a oedd yn ymwneud â 205 o unigolion. Y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran oedd 6.7 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef 40.0 y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol. O'i gymharu â'r llynedd bu gostyngiad o 36.1 y cant yn nifer y derbyniadau yn gysylltiedig â bensodiasepinau.

5.2.5 Symbylyddion eraill

Yn 2024/25, roedd 130 o dderbyniadau i'r ysbyty a oedd yn ymwneud â 132 o unigolion. Gostyngodd nifer y derbyniadau yn ymwneud â'r categori 'symbylyddion eraill' yn y flwyddyn flaenorol, gan ostwng 23.7 y cant o 173 yn 2023/24. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae derbyniadau yn gysylltiedig â 'symbylyddion eraill' wedi gostwng 59.8 y cant.

5.2.6 Defnyddio cyffuriau lluosog


Yn 2024/25, cafodd 892 o unigolion eu derbyn lle cofnodwyd cyffuriau lluosog, sef 29.5 y cant o'r holl dderbyniadau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon. Mae nifer y derbyniadau lle cofnodwyd cyffuriau lluosog wedi cynyddu 18.1 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn tuedd o ostyngiad.

5.3 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn ôl ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru

Yn yr un modd â derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol, roedd amrywiad daearyddol mewn derbyniadau yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon. Fel y dangosir yn Ffigur 8, ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPBC) sydd â'r Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran uchaf o dderbyniadau yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon (189.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Ynghyd â Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg, roedd ganddynt gyfraddau uwch na chyfartaledd Cymru yn 2024/25.

⁴ EMCDDA 2019: European Drug Report – Trends and developments 2018. Ar gael yn: http://www.emcdda.europa.eu/emcdda-home-page_en


⁵ Gweler adran 17



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 8: Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon, trigolion Cymru, Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl math o gyffur ac ardal Bwrdd Iechyd 2024/25

Mae Ffigur 9 yn dangos cyfradd y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon yn ôl bwrdd iechyd dros y pum mlynedd diwethaf. Gostyngodd cyfraddau derbyniadau i'r ysbyty wedi'u safoni yn ôl oedran ar draws y rhan fwyaf o fyrdau iechyd, ar wahân i Hywel Dda a Bae Abertawe, tra bod Powys wedi barhau'n sefydlog o'r flwyddyn flaenorol.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 9: Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon, trigolion Cymru, Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl blwyddyn ac ardal Bwrdd Iechyd 2020/21 i 2024/25

6 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau: derbyniadau seiciatrig

Gall cyflyrau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau sy'n arwain at dderbyniadau i'r ysbyty fod yn gymhleth ac yn hirdymor a gallant fod yn gysylltiedig ag ystod o arbenigeddau meddygol. Mae Tabl 4 yn dangos nifer y derbyniadau yr oedd angen triniaeth seiciatrig ar eu cyfer. Roedd derbyniadau yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn llawer mwy tebygol o gynnwys triniaeth seiciatrig na'r rhai o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol. Mae cyfran y derbyniadau sy'n derbyn triniaeth seiciatrig wedi gostwng yn 2024/25 ar gyfer derbyniadau yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon ond mae wedi parhau'n gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer derbyniadau yn benodol i alcohol.


Tabl 4 : Derbyn i ysbyty seiciatrig a chysylltiad ag arbenigedd seiciatrig (unrhyw ysbyty) yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, niferoedd a chyfran (%) o'r holl dderbyniadau (yn seiliedig ar berson), 2020/21 i 2024/25

	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Derbyniadau alcohol-benodol (unrhyw safle diagnostig)	452 (4.9%)	335 (3.4%)	282 (3.1%)	303 (3.4%)	308 (3.7%)
Derbyniadau ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon (unrhyw safle diagnostig)	636 (13.6%)	564 (13.6%)	487 (13.2%)	423 (12.2%)	367 (11.3%)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

7 Camddefnyddio sylweddau ac amddifadedd

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi mynegai amddifadedd lluosog⁶ sy'n rhestru pob ardal gynnyrch ehangach haen is (ardaloedd daearyddol bach â phoblogaethau sefydlog o tua 1,500) ar fesurau amddifadedd.⁷ Mae'r mesurau hyn yn caniatáu i bob cyfeiriad yng Nghymru gael ei ddosbarthu yn ôl dengradd o amddifadedd a'i restru o'r 10 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i'r 10 y cant o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae Ffigur 10 a Ffigur 11 yn dangos derbyniadau unigol unigryw o ganlyniad i gyflyrau sy'n benodol i alcohol a chyffuriau anghyfreithlon yn y drefn honno yn ôl pob dengradd o amddifadedd.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 10: Derbyniadau unigol unigryw gyda chyflwr penodol i alcohol mewn unrhyw safle yn ôl dengradd o amddifadedd, 2024/25

⁶ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2011-2019?lang=en&_gl=1*6k5u5h*_ga*MjExMDY5OTkzLjE3NTA2MjAzNDQ.*_ga_L1471V4N02*czE3NjQ0NDg4NzMkbzEwNCRnMSR0MTc2NDQ1MDM1NCRqNjAkBDakaDA.

⁷ Sylwch fod amddifadedd yn fesur o'r ardal y mae unigolyn yn byw ynddi, yn hytrach nag yn werthusiad o'u hamgylchiadau penodol.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 11: Derbyniadau unigol unigryw gyda chyflwr sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon mewn unrhyw safle yn ôl dengradd o amddifadedd, 2024/25


Mae perthynas glir rhwng lefel amddifadedd ac unigolion yng Nghymru a gafodd eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon yn 2024/25. Roedd cyfran yr holl gleifion a gafodd eu derbyn o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol a oedd yn byw yn y 10 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig 2.9 gwaith yn uwch na'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Ymhlith y rhai a gafodd eu derbyn o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, roedd y cyferbyniad hyd yn oed yn fwy amlwg gyda derbyniadau 5.8 gwaith yn uwch ymhlith y rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o'u cymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae hyn efallai'n adlewyrchu cyfraniad ychwanegol ffactorau (gan gynnwys troseddoli) ar amddifadedd a'r effaith gysylltiedig ar iechyd ac ymddygiadau risg.

8 Asesiadau gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol

8.1 Asesiadau yn ôl y prif sylwedd ymglyflwyno ac ardal Bwrdd Iechyd

Roedd 17,017 o asesiadau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2024/25, sy'n ostyngiad bach o 2.5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (16,598 o asesiadau). Mae asesiadau yn 2023/24 16.7 y cant yn is nag oeddent 5 mlynedd yn ôl (19,157 o asesiadau yn 2019/20). Roedd yr asesiadau hyn yn ymwneud â 15,615 o unigolion unigryw, sef gostyngiad o 2.8 y cant o'i gymharu â 15,182 yn y flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr unigolion unigryw sy'n cwblhau asesiad mewn gwasanaeth camddefnyddio sylweddau wedi barhau'n gyffredinol sefydlog ers 2019/20. O'r unigolion a aseswyd:

- Roedd 7,180 (46.0 y cant) yn gleientiaid yr oedd alcohol yn brif broblem iddynt, ac roedd 50.7 y cant (n=3,638) ohonynt yn fenywod
- Roedd 6,936 (44.2 y cant) yn gleientiaid yr oedd cyffuriau yn brif broblem iddynt, ac roedd 59.8 y cant (n=4,145) ohonynt yn fenywod
- Nid oedd sylwedd wedi'i gofnodi ar gyfer 1,499 (9.6 y cant) o bobl




Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigwr 12: Asesiadau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl blwyddyn a phrif sylwedd defnydd wedi'i adrodd 2020/21 i 2024/25

Ymhlith yr asesiadau ar gyfer defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus (n=7,606):

- Opioidau oedd y prif sylwedd mwyaf cyffredin gyda 2,828 o asesiadau (37.2 y cant). O'r rhain, roedd 2,237 o asesiadau (79.1 y cant) wedi nodi heroin fel y prif sylwedd, sy'n gyson â'r blynyddoedd diwethaf.
- Cocên gan gynnwys crac cocên oedd y sylwedd nesaf wedi'i adrodd amlaf gyda 2,200 o asesiadau (28.9 y cant), sy'n uwch na'r 1,876 o asesiadau'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 1,344 (61.1 y cant) am gocên ac 856 (38.9 y cant) am grac cocên. Dyma'r unig grŵp cyffuriau y mae asesiadau wedi cynyddu'n gyson ar ei gyfer dros y 5 mlynedd diwethaf, yn bennaf oherwydd cynnydd cyflym mewn asesiadau ar gyfer crac cocên yn benodol. Mae cynnydd o 176 y cant wedi bod yn y pum mlynedd diwethaf.
- Cafodd canabis ei adrodd ar gyfer 1,540 o asesiadau (20.2 y cant), sy'n uwch na'r 1,410 o asesiadau'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bu gostyngiad cyffredinol o 336 (21.8 y cant) dros y pum mlynedd diwethaf.


Dangosir newidiadau yn nifer yr asesiadau camddefnyddio sylweddau dros y pum mlynedd diwethaf yn ôl ardal bwrdd iechyd yn Ffigur 13. Cynyddodd nifer yr asesiadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 8.2 y cant o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol ac roeddent ar eu huchaf o'i gymharu â byrddau iechyd eraill yn 2024/25, sef 3,424 o asesiadau. Roedd hefyd gynnydd ym Myrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro yn y flwyddyn ddiweddaraf o 11.2 y cant a 20.6 y cant, yn y drefn honno. **D.S. Oherwydd newid yn y systemau a gaiff eu defnyddio ym Mae Abertawe, mae data sylweddol ar goll ar gyfer asesiadau yn y bwrdd iechyd hwn. Dim ond data wedi'u cofnodi yng Nghronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau sydd ar gael ac ni ellir nodi tueddiadau yn yr ardal hon ar hyn o bryd.**



Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 13: Asesiadau camddefnyddio sylweddau wedi'u cynnal gan wasanaethau yng Nghymru, yn ôl Bwrdd Iechyd 2020/21 i 2024/25

Dangosir asesiadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ar gyfer 2024/25 yn ôl bandiau oedran a rhyw yn Ffigur 14. Mae oedran unigolion wedi'u hasesu ar gyfer cymorth a thriniaeth mewn perthynas ag alcohol fel arfer yn uwch nag ar gyfer cyffuriau ond mae'n fwy cyson ar draws pob oedran. Ymhlith menywod, mae nifer yr asesiadau ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon yn debyg i bum mlynedd yn ôl, gan ostwng 10.2 y cant. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod bu gostyngiad o 29.7 y cant mewn asesiadau ar gyfer sylweddau anghyfreithlon ymhlith dynion. Mae proffil sylweddau ar gyfer asesiadau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yn amrywio'n sylweddol o ran oedran fel y dangosir yn yr adrannau dilynol.




Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 14: Nifer yr unigolion wedi'u hasesu gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl y prif sylwedd wedi'i adrodd (alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon), rhyw a bandiau oedran pum mlynedd, 2020/21 i 2024/25

8.2 Unigolion sy'n newydd i wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol

Cafodd 10,971 o unigolion eu hasesu yn 2024/25 nad oeddent wedi cael eu cofnodi o'r blaen yn rhai a oedd wedi cael asesiad gyda gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, sef 70.3 y cant o'r holl unigolion wedi'u hasesu yn y flwyddyn honno. Ymhlith y rhai oedd yn newydd i wasanaethau, roedd 4,986 o asesiadau ar gyfer defnyddio alcohol yn bennaf mewn ffordd broblemus a 5,220 o asesiadau ar gyfer defnyddio cyffuriau yn bennaf mewn ffordd broblemus. Nid oedd sylwedd wedi'i gofnodi ar gyfer y 765 arall. Dangosir nifer yr unigolion unigryw sy'n newydd i wasanaethau yn Ffigur 15 yn ôl y prif fath o sylwedd broblemus.



Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigwr 15: Nifer yr unigolion sy'n newydd i'r gwasanaeth, wedi'u hasesu gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2024/25 yn ôl y prif sylwedd wedi'i adrodd (alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon) a bandiau oedran pum mlynedd.

Roedd dosbarthiad oedran unigolion wedi'u hasesu'n ddiweddar yn 2024/25 yn amrywio yn ôl y prif sylwedd problemus. Ymhlith y rhai a oedd yn ymglyfwno gyda defnyddio alcohol yn bennaf mewn ffordd problemus, roedd tua hanner (50.1 y cant) rhwng 30 a 50 oed. Yr oedran canolrif oedd 46.5. I'r rhai a oedd yn ymglyfwno gyda defnyddio cyffuriau yn bennaf mewn ffordd problemus, roedd y mwyafrif (59.6 y cant) rhwng 25 a 45 oed. Yr oedran canolrif oedd 37, sy'n dynodi grŵp iau.


Roedd cyfran y dynion a'r menywod oedd yn newydd i wasanaethau yn amrywio ar draws y prif grwpiau sylweddau problemus. O ran asesiadau ar gyfer alcohol, roedd 55.7 y cant (n=2,775) yn fenywod tra'r oedd 66.4 y cant yn fenywod (n=3,468) o ran asesiadau ar gyfer cyffuriau. Er bod asesiadau newydd ar gyfer defnyddio alcohol mewn ffordd problemus wedi parhau'n fwy cyfartal rhwng dynion a menywod, bu cynnydd graddol yng nghyfran yr asesiadau ar gyfer defnyddio cyffuriau mewn ffordd problemus ymhlith menywod o'u cymharu â dynion yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

9 Iechyd cyn ac ar ôl geni

9.1 Ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithir arnynt gan ddefnydd gan y fam o gyffuriau sy'n achosi dibyniaeth, neu gan ddiddychu o ddibyniaeth arnynt

Mae syndrom alcohol y ffetws yn deillio o ddefnydd gan y fam o alcohol yn ystod beichiogrwydd.⁸ Cyflwr difrifol yw ef sydd fel arfer yn arwain at blant yr effeithir arnynt yn profi twf cyfyngedig, anhwylderau dysgu ac ymddygiad, a phroblemau ffisiolegol. Mae'r cyflwr hwn yn datblygu yn y cyfnod amenedigol ac mae'n enghraifft gyffredin o gyflyrau sy'n deillio o ddefnydd gan y fam o alcohol.

Mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithir arnynt gan ddefnydd gan y fam o alcohol neu gyffuriau eraill sy'n achosi dibyniaeth, neu gan ddiddychu o ddibyniaeth arnynt, gan gynnwys Syndrom Alcohol y Ffetws, wedi gostwng yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf. Y nifer isaf yn y 10 mlynedd diwethaf oedd yn 2024/25 (gweler Atodiad A am ddiffiniad manwl). Yn 2024/25, cafodd 33 o drigolion Cymru eu derbyn lle cafodd y cyflyrau hyn eu cofnodi mewn unrhyw safle diagnostig. Cafodd cyflwr perthnasol ei gofnodi yn y prif safle mewn 13 achos. Er ei bod hi'n rhy gynnar i bennu tueddiadau clir, efallai bod tystiolaeth gynnar o duedd sy'n gostwng ers 2019/20 (gweler Ffigur 16).



Ffigur 16: Nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithir arnynt gan ddefnydd gan y fam o alcohol neu gyffuriau eraill sy'n achosi dibyniaeth, neu gan ddiddychu o ddibyniaeth arnynt, yn ôl safle diagnostig 2015/16 i 2024/25

⁸ Mae rhagor o wybodaeth am Syndrom Alcohol y Ffetws a chyflyrau cysylltiedig ar gael yn: <http://www.nhs.uk/Conditions/foetal-alcohol-syndrome/Pages/Introduction.aspx>

10 Plant a phobl ifanc (hyd at 24 oed)

10.1 Plant sy'n derbyn gofal a chymorth

Yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Cyfrifiad Plant mewn Angen wedi'i newid i Gyfrifiad 'Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth'. Oherwydd y newid yn y fethodoleg, ni ddylid cymharu ffigurau â data cyn 2017.

Nid oedd unrhyw ddata wedi'u diweddarau ar gael adeg cyhoeddi. Yn 2022/23 roedd 17,515 o blant yn derbyn gofal a chymorth yng Nghymru, sy'n uwch na'r 17,190 yn 2021/22,^{9,10,11} sef cynnydd o 1.9 y cant. O'r rhain, roedd 5,190 o blant (29.6 y cant) gyda chamddefnyddio sylweddau gan rieni wedi'i restru'n ffactor yn eu hatgyfeiriad (ychydig yn uwch na'r 28.9 y cant yn 2021/22).^{12,13}

10.2 Gwaharddiadau o'r ysgol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau

Yn 2023/24 (blwyddyn academiaidd), sef y data diweddaraf sydd ar gael, parhaodd nifer y gwaharddiadau o ysgolion yn gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol yn uchel (936), o'i gymharu â 938 yn 2022/23.¹⁴ *Oherwydd oedi, mae'r data a gaiff eu defnyddio yn y ffigurau hyn fel arfer flwyddyn ar ei hôl hi.* Nid oes data ar gyfer 2019-20 gan fod ysgolion wedi bod ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn academiaidd.

Parhaodd nifer y gwaharddiadau o bob lefel (cyfnod penodol neu barhaol) yn sefydlog o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn dilyn cynnydd sylweddol yn 2021/22. O'r holl waharddiadau o ysgolion (unrhyw reswm), canran y gwaharddiadau yn gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol oedd 2.6 y cant yn 2023/24, gostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

⁹ Caiff ystadegau ar gyfer Plant mewn Angen eu casglu trwy gyfrifiad o achosion agored ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac maent yn adlewyrchu'r nifer ar yr adeg honno.


¹⁰ Diffiniad y term 'Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth' yw plant (iau na 18 oed) sydd â chynllun gofal a chymorth. Mae gan blant sy'n derbyn gofal gynllun gofal a chymorth a byddant yn is-set o'r boblogaeth hon.

¹¹ Noder bod ystadegau wedi'u dosbarthu'n rhai arbrofol a dylid eu defnyddio'n ofalus

¹² Mae rhagor o wybodaeth am y data hyn, gan gynnwys cymariaethau daearyddol, ar gael yn <https://www.llyw.cymru/cyfrifiad-plant-syn-derbyn-gofal-chymorth-ar-31-mawrth-2023-ystadegau-swyddogol-o-dan-ddatblygiad> a <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support>

¹³ Bydd cyhoeddiadau o'r data hwn yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi yn <https://stats.llyw.cymru/cy-GB>, er bod dyddiad rhyddhau'r data hyn i'w gadarnhau ar adeg eu cyhoeddi.


¹⁴ Unwaith y byddant ar gael, bydd y data wedi'u diweddarau yn cael eu cyhoeddi yn <https://www.llyw.cymru/gwaharddiadau-parhaol-chyfnod-penodol-o-ysgolion>



Ffigur 17: Nifer y gwaharddiadau o ysgolion yn gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yn ôl math o waharddiad, 2014/15 i 2023/24 (blwyddyn academiaidd).

10.3 Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol ymhlith plant a phobl ifanc


Roedd 341 o dderbyniadau yn ymwneud â phobl ifanc iau na 25 oed gyda chyflwr penodol i alcohol yn 2024/25, sef gostyngiad o 392 (13.0 y cant) yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y derbyniadau'n ymwneud â 291 o unigolion ac roedd 49.8 y cant ohonynt yn ferched/fenywod. Roedd 114 o dderbyniadau gyda chod penodol i alcohol yn y prif safle (56.4 y cant yn ferched/fenywod), sef 33.4 y cant o'r holl dderbyniadau yn benodol i alcohol ar gyfer pobl iau na 25 oed. Mae Ffigur 18 yn dangos nifer y derbyniadau o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol mewn unrhyw safle diagnostig ymhlith pobl iau na 25 oed sy'n byw yng Nghymru yn 2024/25 yn ôl rhyw a grŵp oedran.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigwr 18: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol ymhlith trigolion Cymru iau na 25 oed, yn ôl rhyw 2024/25

Mae Ffigwr 19 yn dangos nifer y derbyniadau sy'n cynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed gyda chyflwr penodol i alcohol yn ôl blwyddyn a rhyw. Mae derbyniadau sy'n cynnwys y garfan oedran hon wedi gostwng 70.0 y cant dros y deng mlynedd diwethaf, o 1,135 o dderbyniadau yn 2015/16. Mae'r gostyngiad hwn yn gymharol rhwng merched/menywod (73.1 y cant) a bechgyn/dynion (75.5 y cant). Fodd bynnag, yn 2024/25, gostyngodd nifer y derbyniadau yn benodol i alcohol 27.2 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ymhlith bechgyn/dynion ond parhaodd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol ymhlith merched/menywod. Roedd y garfan oedran iau na 25 oed yn cyfrif am 2.7 y cant o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty gyda chyflwr penodol i alcohol yn 2024/25.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 19: Derbyniadau sy'n cynnwys pobl ifanc iau na 25 oed sy'n byw yng Nghymru sydd â chyflwr penodol i alcohol, yn ôl blwyddyn a rhyw 2015/16 i 2024/25

10.4 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith plant a phobl ifanc


Yn 2024/25 ymhlith pobl ifanc hyd at 25 oed, roedd 611 o dderbyniadau oherwydd cyflyrau'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon, sef gostyngiad o 10.3 y cant o'i gymharu â 2023/24. Roedd y derbyniadau hyn yn ymwneud â 518 o unigolion. Derbyniadau ymhlith pobl ifanc hyd at 25 oed oedd 15.9 y cant o'r holl dderbyniadau yn 2024/25 oherwydd cyffuriau anghyfreithlon. O'r unigolion a gafodd eu derbyn, roedd 50.4 y cant yn fechgyn/dynion a 49.2 y cant yn ferched/menywod. Mae Ffigur 20 yn dangos nifer y bobl ifanc iau na 25 oed sy'n byw yng Nghymru ac a gafodd eu derbyn i'r ysbyty yn dilyn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2024/25.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 20: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon ymhlith pobl ifanc iau na 25 oed, trigolion Cymru yn ôl rhyw a grŵp oedran, 2024/25

Mae Ffigur 21 yn dangos nifer y derbyniadau yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn ôl sylwedd dros y deng mlynedd diwethaf ar gyfer y rhai iau na 25 oed. Mae derbyniadau o ganlyniad i ddefnyddio opioidau wedi bod yn gostwng yn gyffredinol ers 2015/16. Gostyngodd nifer y derbyniadau o ganlyniad i ganabinoidau i 225 yn 2024/25. Yn dilyn uchafbwynt o 180 o dderbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â bensodiasepinau yn 2020/21, bu gostyngiad amlwg yn y blynyddoedd ers hynny, i isafbwynt newydd o 29 o dderbyniadau yn 2024/25, sef gostyngiad o 83.9 y cant mewn pum mlynedd. Mae derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cocên wedi gostwng i 54 yn y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn gostyngiad cyffredinol ers 2018/19, ac eithrio 2023/24.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 21: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon sy'n cynnwys pobl ifanc iau na 25 oed sy'n byw yng Nghymru, yn ôl blwyddyn a math o sylwedd, 2015/16 i 2024/25¹⁵

10.5 Asesiadau mewn gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau arbenigol ymhlith plant a phobl ifanc

Yn 2024/25, roedd 2,152 o asesiadau ar gyfer pobl ifanc iau na 25 oed, sy'n gymharol sefydlog o'r flwyddyn flaenorol (2,102 o asesiadau), sef 12.6 y cant o'r holl asesiadau yn 2024/25. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer yr asesiadau wedi parhau'n gyffredinol sefydlog, gan ostwng dim ond 5.4 y cant. Roedd 2,275 o asesiadau yn 2020/21. Cymerodd 2,061 o unigolion unigryw ran yn yr asesiadau. Mae Ffigur 22 yn dangos asesiadau ar gyfer y grŵp oedran hwn yn ôl rhyw, oedran a'r prif sylwedd wedi'i adrodd yn un problemus.

¹⁵ Efallai bod unigolion wedi cael eu derbyn am fwy nag un grŵp sylweddau a byddent wedi cael eu cynnwys ym mhob grŵp perthnasol.




Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigwr 22: Unigolion iau na 25 oed wedi'u hasesu gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl rhyw, band oedran a'r prif sylwedd wedi'i adrodd yn un problemus yn 2024/25¹⁶

Mae Ffigwr 23 yn dangos nifer yr asesiadau yn ôl blwyddyn ac yn ôl y prif sylwedd wedi'i adrodd yn yr asesiad yn y grŵp oedran hwn. Er gwaethaf gostyngiad dros y blynyddoedd diwethaf, canabis/canabinoidau yw'r sylwedd wedi'i adrodd amlaf mewn asesiadau ar gyfer pobl ifanc. Cynyddodd nifer yr asesiadau ar gyfer cocên a chrac cocên ymhellach i 334 o asesiadau yn 2024/25, gan gynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae'n parhau i fod yn is nag yn 2019/20 (423 o asesiadau). Mae nifer yr asesiadau sy'n cynnwys opioidau wedi parhau'n sefydlog o'r flwyddyn flaenorol, ar lefelau isel, ond mae wedi gostwng 55.1 y cant ers 2019/20. Bu cynnydd o 12.0 y cant mewn asesiadau ar gyfer alcohol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan barhau islaw'r blynyddoedd blaenorol. Mae asesiadau ar gyfer amffetaminau ac ecstasi wedi parhau'n gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

¹⁶ Os cafodd unigolyn ei asesu fwy nag unwaith, defnyddiwyd manylion o'r asesiad cyntaf



Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025


Ffigur 23: Asesiadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc iau na 25 oed, yn ôl blwyddyn a'r prif sylwedd problemus wedi'i adrodd 2020/21 i 2024/25, Cymru

11 Oedolion rhwng 25 a 49 oed

11.1 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol, oedolion 25-49 oed

Roedd 3,744 o dderbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol ymhlith oedolion 25-49 oed yn 2024/25, gan ostwng 9.5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fel y dangosir yn Ffigur 24. Mae derbyniadau yn y garfan oedran hon wedi gostwng 40.5 y cant dros y degawd diwethaf. Yn 2024/25, roedd 1,246 (33.3 y cant) o'r derbyniadau hyn yn cynnwys cod penodol i alcohol yn y prif safle.


Cafodd cyfanswm o 2,475 o gleifion unigol eu derbyn o ganlyniad i alcohol yn 2024/25, ac o'r rhain cafodd 901 (36.4 y cant) eu derbyn o ganlyniad i god penodol i alcohol yn y prif safle. Roedd mwyafrif y cleifion, 64.1 y cant, yn ddynion, sef cyfran sydd wedi parhau'n gymharol sefydlog dros yr wyth mlynedd diwethaf. Oedolion 25-49 oed oedd 33.0 y cant o'r holl unigolion wedi'u derbyn o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol yn 2024/25. Mae Ffigur 24 yn dangos unigolion 25-49 oed a gafodd eu derbyn i'r ysbyty yn 2024/25 gyda chyflwr penodol i alcohol yn ôl rhyw a grŵp oedran.¹⁷



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 24: Oedolion 25-49 oed sy'n byw yng Nghymru a gafodd eu derbyn i'r ysbyty gyda chyflwr penodol i alcohol, yn ôl rhyw, oedran, 2024/25

¹⁷ Os derbyniwyd unigolyn fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, cafodd y safle diagnostig ar gyfer yr achos cyntaf o'i dderbyn i'r ysbyty ei gynnwys.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025


Ffigur 25: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol ymhlith oedolion 25-49 oed sy'n byw yng Nghymru, yn ôl blwyddyn a rhyw, 2015/16 i 2024/25

11.2 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion 25-49 oed

Roedd 2,075 o dderbyniadau yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ar gyfer y garfan oedran hon yn 2024/25, a oedd yn ymwneud â 1,730 o unigolion. Mae'r niferoedd hyn yn ostyngiad o 3.9 y cant mewn derbyniadau a 5.8 y cant mewn unigolion a gafodd eu derbyn o'u cymharu â 2023/24.

Derbyniadau ymhlith y rhai 25-49 oed oedd 54.1 y cant o'r holl dderbyniadau hynny o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn 2024/25, sef cynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y rhaniad o ran rhyw yn y garfan oedran hon yn sylweddol wahanol i'r hyn a geir ymhlith pobl iau, gyda dynion yn cyfrif am 66.0 y cant o'r rhai wedi'u derbyn yn 2024/25.


O'i gymharu â blynnyddoedd blaenorol, roedd dosbarthiad y derbyniadau yn seiliedig ar berson yn fwy cyson rhwng bandiau oedran yn y garfan hon yn 2024/25, yn enwedig ymhlith menywod. Bu gostyngiad bach yng nghyfran y menywod rhwng 40 a 49 oed yn y flwyddyn ddiwethaf, a chynnydd yng nghyfran y dynion rhwng 44 a 49 oed. Mae Ffigur 26 yn dangos nifer yr unigolion sy'n byw yng Nghymru ac a gafodd eu derbyn i'r ysbyty yn dilyn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2024/25.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigwr 26: Oedolion 25-49 oed sy'n byw yng Nghymru wedi'u derbyn i'r ysbyty gyda chyflwr sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon, yn ôl rhyw a grŵp oedran, 2024/25

Mae Ffigwr 27 yn dangos nifer y derbyniadau yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn ôl math o sylwedd dros y deng mlynedd diwethaf ar gyfer y rhai 25-49 oed. Y grŵp sylweddau mwyaf cyffredin yw opioidau, sy'n gysylltiedig â 31.1 y cant o dderbyniadau yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon. Gostyngodd nifer y derbyniadau sy'n cynnwys opioidau yn 2024/25 15.0 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef y ganrif isaf wedi'i chofnodi yn y 10 mlynedd diwethaf. Er bod gostyngiad bach wedi bod yn nifer y derbyniadau sy'n cynnwys cocên yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae derbyniadau'n parhau i fod 24.7 y cant yn uwch nag yn 2015/16. Mae derbyniadau sy'n cynnwys bensodiasepinau yn parhau i ostwng, gan ostwng 40.1 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf ac 81.3 y cant ers 2015/16.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 27: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon sydd wedi'u henwi ymhlith oedolion 25-49 oed, sy'n byw yng Nghymru yn ôl blwyddyn a math o sylwedd, 2024/25¹⁸

11.3 Asesiad gan wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau, oedolion 25-49 oed

Roedd 11,109 o asesiadau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol ymhlith unigolion 25-49 oed yn 2024/25, sef gostyngiad o 3.0 y cant o 2023/24. Roedd yr asesiadau'n ymwneud â 10,052 o unigolion unigryw, sy'n cynrychioli 64.4 y cant o'r holl unigolion wedi'u hasesu yn 2024/25. O'r rhain, roedd 55.0 y cant yn fenywod, sy'n gymharol sefydlog o'r flwyddyn flaenorol. Y band oedran 35-39 oedd yn cynnwys y nifer uchaf o unigolion wedi'u hasesu ar draws pob band oedran, sef 2,418 o unigolion (24.1 y cant). Mae Ffigur 28 yn dangos unigolion wedi'u hasesu gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2024/25 yn ôl oedran, rhyw a'r prif fath o sylwedd problemus.

¹⁸ Efallai bod unigolion wedi cael eu derbyn am fwy nag un grŵp sylweddau a byddent wedi cael eu cynnwys ym mhob grŵp perthnasol.




Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 28: Oedolion 25-49 oed wedi'u hasesu gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl rhyw, band oedran a'r prif sylwedd wedi'i adrodd yn un problemus, 2023/24 ¹⁹

Alcohol oedd y sylwedd problemus wedi'i adrodd amlaf mewn asesiad gyda 4,701 o asesiadau, sef cynnydd o 2.6 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gweler Ffigur 29). Cafodd cynnydd nodedig o 21.3 y cant ei gofnodi mewn asesiadau lle adroddwyd mai crac/cocên powdr oedd y prif sylwedd problemus yn y grŵp oedran hwn. Mae nifer yr asesiadau lle cafodd opiadau ei gofnodi'n brif sylwedd problemus wedi gostwng 6.1 y cant ymhellach yn y flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiadau bach ond cyson yn nifer yr asesiadau sy'n cynnwys amffetaminau bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda gostyngiad o 60.0 y cant dros y cyfnod hwnnw. Cynyddodd nifer yr asesiadau yn ymwneud â chanabis yn 2024/25 22.8 y cant, gan barhau'n gymharol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf yn gyffredinol.

¹⁹ Os cafodd unigolyn ei asesu fwy nag unwaith, defnyddiwyd manylion o'r asesiad cyntaf



Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025


Ffigur 29: Asesiadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ymhlith oedolion 25-49 oed, yn ôl blwyddyn a'r prif sylwedd problemus wedi'i adrodd, Cymru 2020/21 i 2024/25

12 Oedolyn hŷn, 50 oed a hŷn

12.1 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol, oedolion hŷn

Roedd 8,452 o dderbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol yn 2024/25 ymhlith oedolion 50 oed a hŷn. O'r derbyniadau hyn, roedd 1,577 (18.7 y cant) o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol yn y prif safle. Cafodd 5,590 o gleifion unigol eu derbyn, ac roedd 1,280 (22.9 y cant) ohonynt o ganlyniad i gyflyrau yn y prif safle. Roedd dynion yn cyfrif am 67.2 y cant o'r derbyniadau, sy'n debyg i flynyddoedd blaenorol. Roedd y garfan oedran 50 oed a hŷn yn cyfrif am 67.4 y cant o'r holl rai wedi'u derbyn o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol yn 2024/25, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol.


Mae'r band oedran pum mlynedd gyda'r nifer uchaf o unigolion wedi'u derbyn yn rhan o'r garfan hon. Roedd y rhai 60-64 oed yn cyfrif am 8.6 (n=1,076) y cant o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol yn 2024/25. Y band oedran pum mlynedd uchaf nesaf yw 55-59 oed, a oedd cyn hynny yr uchaf, sef 8.4 y cant (n=1,053) o'r holl dderbyniadau yn benodol i alcohol. Mae Ffigur 30 yn dangos nifer yr unigolion 50 oed a hŷn wedi'u derbyn gyda chyflwr penodol i alcohol mewn unrhyw safle diagnostig yn 2024/25 yn ôl rhyw a grŵp oedran.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 30: Oedolion hŷn, 50 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru a gafodd eu derbyn i'r ysbyty gyda chyflwr penodol i alcohol, yn ôl band oedran a rhyw ac oedran 2024/25

Mae Ffigur 31 yn dangos nifer y derbyniadau sy'n cynnwys y rhai 50 oed neu'n hŷn sy'n ymwneud â chyflwr penodol i alcohol yn ôl rhyw. Ers 2015/16, bu gostyngiad o 6.1 y cant yn nifer y derbyniadau sy'n cynnwys unigolion 50 oed a hŷn.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 31: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau penodol i alcohol ymhlith oedolion hŷn 50 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru yn ôl blwyddyn a rhyw, 2015/16 i 2024/25

12.2 Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion hŷn

Yn 2024/25, roedd 1,151 o dderbyniadau yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon a oedd yn ymwneud â 1,006 o unigolion 50 oed a hŷn, sy'n gyson i raddau helaeth â'r flwyddyn flaenorol (1,210 o dderbyniadau a 1,016 o unigolion). O'r rhain, roedd 60.2 y cant o'r cleifion yn ddynion Dynion sy'n cynrychioli cyfran uwch o dderbyniadau yn y categori oedran hwn ers 2014/15. Unigolion 50 oed a hŷn oedd 30.0 y cant o'r holl dderbyniadau yn 2024/25 yn dilyn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon o'u cymharu â 17.3 y cant 10 mlynedd yn ôl.


Yn y garfan oedran eang hon, y categori oedran 50-59 oedd â'r nifer uchaf o unigolion, sef 16.3 y cant o'r holl unigolion wedi'u derbyn o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon ar draws pob categori oedran. Gwelir llawer mwy o amrywiad rhwng grwpiau oedran ymhlith dynion yn y garfan hon nag ymhlith menywod. Mae Ffigur 32 yn dangos nifer yr unigolion hŷn sy'n byw yng Nghymru ac a gafodd eu derbyn i'r ysbyty yn dilyn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2024/25.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 32: Oedolion hŷn, 50 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru a gafodd eu derbyn i'r ysbyty gyda chyflwr sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon, yn ôl rhyw ac oedran, 2024/25

Mae derbyniadau yn ymwneud ag opioidau yn parhau i fod yn sylweddol uwch na chyffuriau anghyfreithlon eraill, sef bron i hanner (47.7 y cant) o dderbyniadau yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn y categori oedran hwn (gweler Ffigur 33). Mae derbyniadau o ganlyniad i opioidau yn y garfan hon wedi gostwng 7.6 y cant yn 2024/25 ond maent yn parhau i fod yn uwch nag yr oeddent 10 mlynedd yn ôl. Mae derbyniadau yn ymwneud â bensodiasepinau wedi gostwng yn sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf, gan ostwng 71.6 y cant ers 2015/16. Mae hyn yn cynnwys gostwng 27.4 y cant yn y flwyddyn flaenorol yn unig. Mae derbyniadau o ganlyniad i ganabinoidau a chocên wedi cynyddu'n gyffredinol dros y 10 mlynedd diwethaf, er gwaethaf gostyngiad bach yn y blynyddoedd diweddaraf. Mae Ffigur 33 yn dangos nifer y derbyniadau yn ymwneud â phob math o sylwedd yn y categori oedran hwn dros amser.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 33: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion hŷn, 50 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru yn ôl blwyddyn a math o sylwedd, 2015/16 i 2024/25


12.3 Asesiad gan wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau, oedolion hŷn

Cafodd 3,722 o asesiadau ar gyfer unigolion 50 oed a hŷn eu cofnodi ar Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn 2024/25, sef cynnydd bach o'u cymharu â 2023/24 (3,653 o asesiadau). Roedd yr asesiadau hyn yn ymwneud â 3,468 o unigolion unigryw, ac roedd 51.6 y cant ($n=1,788$) ohonynt yn ddynion. Roedd mwyafrif sylweddol (67.8 y cant) o unigolion wedi'u hasesu yn y garfan oedran hon yn y grŵp oedran 50-59 ($n=2,191$). Mae Ffigur 34 yn dangos unigolion 50 oed a hŷn wedi'u hasesu gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yng Nghymru yn ôl oedran, rhyw a'r prif sylwedd problemus wedi'i adrodd.



Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025
Ffigur 34: Oedolion hŷn, 50 oed a hŷn wedi'u hasesu gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl rhyw, band oedran a'r prif sylwedd problemus wedi'i adrodd, 2024/25

Fel y dangosir yn Ffigur 35, alcohol oedd y sylwedd problemus wedi'i ymglyflwyno amlaf, sef 71.6 y cant o asesiadau (n=2,483). Mae hyn yn cymharu â 13.7 y cant (n=474) o asesiadau lle adroddwyd mai opioidau oedd y prif sylwedd problemus. Er bod rhywfaint o amrywiad wedi bod yn nifer yr asesiadau ar gyfer alcohol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, mae asesiadau ar gyfer y rhan fwyaf o sylweddau eraill wedi parhau'n gymharol sefydlog. Fodd bynnag, mae asesiadau ar gyfer cocên a chrac cocên wedi mwy na threblu yn y categori oedran hwn dros y pum mlynedd diwethaf, yn enwedig yn y flwyddyn ddiweddaraf.



Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2025

Ffigur 35: Asesiadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ymhlith oedolion hŷn, 50 oed a hŷn, yn ôl y prif sylwedd problemus wedi'i adrodd, Cymru 2020/21 i 2024/25


13 Defnydd wedi'i hunan-adrodd o gyffuriau anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: oedolion 16-59 oed

Fel arfer, cynhelir Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn flynyddol ond, oherwydd oedi, mae'r ffigurau hyn fel arfer flwyddyn ar ei hôl hi. Ni chafodd unrhyw ddata eu cyhoeddi ar gyfer 2020-21 na 2021-22. Er mai ei brif bwrpas yw arolygu sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth ar eu profiadau o droseddu, mae hefyd yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â defnydd unigolion o gyffuriau anghyfreithlon, a'u hagweddau tuag atynt. Nododd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr y canlynol: "It is recognised as a good measure of recreational drug use.....it does not provide good coverage of the problematic drug use population, as many such users may not be a part of the household resident population which is covered by the survey."²⁰

Mae data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer 2023/24 yn awgrymu bod cyfraddau defnyddio cyffuriau anghyfreithlon wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiweddaraf, o 9.3 y cant yn 2022/23 i 9.9 y cant yn 2023/24.²¹ Mae cyfran yr oedolion sy'n hunan-adrodd eu bod yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr yn gyffredinol (8.8 y cant). Fel y dangosir yn Ffigur 36, o'i gymharu â 2015/16, mae'r defnydd wedi'i hunan-adrodd o:

- Cyffur Dosbarth A wedi cynyddu o 2.8 y cant i 3.6 y cant
- Cocên Powdr wedi cynyddu o 2.2 y cant i 2.3 y cant
- Canabis wedi gostwng o 7.2 y cant i 7.1 y cant
- Ecstasi wedi cynyddu o 0.8 y cant i 1.6 y cant

²⁰ Y Swyddfa Gartref 2018: Drug misuse: Findings from the 2018/19 Crime Survey for England and Wales, ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/832533/drug-misuse-2019-hosb2119.pdf
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Drug misuse finding from the 2023 to 2024 CSEW. Ar gael yn <https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingmarch2024>



Y Swyddfa Gartref, 2025

Ffigwr 36: Canran yr oedolion yng Nghymru 16-59 oed sy'n hunan-adrodd eu bod wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon dethol yn ystod y 12 mis diwethaf, 2015/16 i 2023/24

Yng Nghymru, mae cyfran yr oedolion a hunan-adroddodd eu bod yn defnyddio poenladdwyr presgripsiwn yn unig heb bresgripsiwn oherwydd rhesymau meddygol wedi gostwng o 10.7 y cant yn 2015/16 i 6.3 y cant yn 2023/24, sy'n uwch na Lloegr yn gyffredinol yn 2023/24 (5.3 y cant).

14 Defnyddio cyffuriau drwy chwistrellu: ymddygiadau risg a firysau a gludir yn y gwaed

14.1 Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Yn 2010, cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, y Gronfa Ddata Lleihau Niwed ym mhob rhaglen nodwyddau a chwistrellau arbenigol yn y sector statudol a gwirfoddol ledled Cymru. Ers mis Ebrill 2014, mae darpariaeth offer chwistrellu gan fferyllfeydd cymunedol hefyd wedi'i chynnwys. Mae manylion sut mae data'n cael eu casglu drwy'r Gronfa Ddata Lleihau Niwed, ac adroddiadau gweithgaredd diweddaraf y Gronfa Ddata Lleihau Niwed ar gael ar-lein.²²

Cafodd unigolyn ei ystyried yn ddefnyddiwr 'rheolaidd' o raglenni nodwyddau a chwistrellau yng Nghymru os oedd:

- Wedi defnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau o leiaf ddwywaith neu fwy yn y flwyddyn gyfredol, neu
- Wedi defnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau ar gyfer chwistrellu cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd ac wedi defnyddio gwasanaethau o leiaf unwaith yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol

Gwneir y gwahaniaeth hwn er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar ddata unigolion sydd efallai'n defnyddio manylion adnabod gwahanol wrth fynd ar gyfer offer chwistrellu neu sy'n bobl sy'n chwistrellu cyffuriau'n anaml.


Adroddir data yn ôl grŵp sylweddau; opioidau, symbylyddion a chyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd.^{23,24} Gan fod chwistrellu cyffuriau a defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yn aml yn cynnwys defnyddio mwy nag un sylwedd, gall unigolion gael eu cynnwys mewn sawl grŵp sylweddau.

Yn 2024/25, fe wnaeth cyfanswm o 15,795 o unigolion ddefnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau o leiaf unwaith yng Nghymru, sef gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (16,177 o unigolion). O'r rhain, cafodd 8,414 eu diffinio'n bobl sy'n chwistrellu cyffuriau sy'n defnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd. Defnyddiodd y 7,763 o unigolion eraill (48.0 y cant) wasanaeth rhaglenni nodwyddau a chwistrellau unwaith yn unig yn 2024/25. Mae Ffigur 37 yn dangos nifer yr unigolion wnaeth ddefnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd rhwng 2020/21 a 2024/25 yn ôl oedran a grŵp sylweddau.

²² Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cronfa Ddata Lleihau Niwed – Gweithgarwch rhaglen nodwyddau a chwistrellau yng Nghymru 2021-22. Ar gael yn <https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/gweithgarwch-rhaglenni-nodwyddau-a-chwistrellau-yng-nghymru-adroddiad-blynyddol-2021-22/>

²³ Mae symbylyddion yn cynnwys amffetamin, crac cocên a chocên, meffedron a sylweddau cathinon eraill.

²⁴ Yn cynnwys Steroidau Anabolig ac Androgenig chwistrelladwy a geneuol, Peptidau (gan gynnwys Hormon Twf), Melanotan, Inswlin a Ffactorau Twf Tebyg i Inswlin



Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, 2025

Ffigwr 37: Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran, blwyddyn a grŵp sylweddau, 2020/21 i 2024/25²⁵

14.1.1 Pobl ifanc hyd at 25 oed

Yn 2024/25, pobl ifanc oedd 4.2 y cant (n= 403) o'r holl unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd. Mae'r gyfran hon wedi parhau'n sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. O blith yr holl bobl iau na 25 oed a oedd yn defnyddio gwasanaeth rhaglen nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd:

- Roedd 93.3 y cant (n = 376) yn ddynion
- Adroddodd 86.3 y cant (n=360) eu bod yn defnyddio cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd
- Adroddodd 13.4 y cant (n=32) eu bod yn defnyddio opioidau
- Adroddodd 6.8 y cant (n=14) eu bod yn defnyddio symbylyddion

14.1.2 Oedolion 25-49 oed


Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau rhwng 25 a 49 oed yw mwyafrif y rhai sy'n defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd yng Nghymru, sef cyfanswm o 6,654 o

²⁵ Diffiniad defnyddiwr rheolaidd yw unigolyn a ddefnyddiodd raglen nodwyddau a chwistrellau ar o leiaf ddau achlysur neu fwy mewn blwyddyn galendr benodol neu a nododd ei fod wedi defnyddio cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd ac wedi defnyddio rhaglen nodwyddau a chwistrellau yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol.

unigolion (79.1 y cant) yn 2024/25, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (80.6 y cant). O'r cyfanswm hwn²⁶:

- Roedd 88.4 y cant (n=5,882) yn ddynion
- Adroddodd 64.0 y cant (n= 4,258) eu bod yn defnyddio cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd
- Adroddodd 32.6 y cant (n=2,167) eu bod yn defnyddio opioïdau
- Adroddodd 12.4 y cant (n= 827) eu bod yn defnyddio symbylyddion

Roedd cyfran y dynion a menywod sy'n chwistrellu cyffuriau yn amrywio yn ôl y prif fath o gyffur fel y dangosir yn Ffigur 38.



Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, 2025

Ffigur 38: Nifer y bobl sy'n chwistrellu cyffuriau, sy'n defnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd yn ôl rhyw, grŵp oedran a grŵp sylweddau, Cymru, 2024/25

14.1.3 Oedolion hŷn, 50 oed a hŷn

Roedd 1,357 o unigolion 50 oed a hŷn yn defnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rheolaidd yn 2024/25, sef 16.1 y cant o'r cyfanswm. Er gwaethaf gostyngiad bach yn y flwyddyn ddiweddaraf, mae'r gyfran hon wedi cynyddu'n gyffredinol o 5.5 y cant yn 2015/16. O'r 1,357 o oedolion hŷn sy'n defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau:

²⁶ Efallai bod unigolion sy'n adrodd eu bod yn defnyddio amryw o gyffuriau yn cael eu cynnwys mewn mwy nag un grŵp sylweddau.

- Roedd 89.3 y cant (n=1,204) yn ddynion
- Adroddodd 45.0 y cant (n=611) eu bod yn defnyddio cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd
- Adroddodd 49.1 y cant (n=666) eu bod yn defnyddio opioïdau
- Adroddodd 17.2 y cant (n=233) eu bod yn defnyddio symbylyddion

14.2 Ymddygiadau risg ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau

Mae defnyddio cyffuriau drwy chwistrellu, yn enwedig pan mae'n cynnwys rhannu offer chwistrellu, yn uniongyrchol (rhannu nodwyddau a chwistrellau) ac yn anuniongyrchol (rhannu offer arall sy'n gysylltiedig â chwistrellu gan gynnwys llwyau/poptai, hidlwyr, dŵr), yn cael effaith glir ar gyffredinolrwydd heintiau firaol a gludir yn y gwaed. Mae hyn yn cynnwys hepatitis B, hepatitis C, HIV a heintiau bacteriol. Mae tystiolaeth ar rannu mewn modd uniongyrchol ac anuniongyrchol a phrofion a chyffredinolrwydd firysau a gludir yn y gwaed ar gael o ddwy ffynhonnell; Arolwg Monitro Dienw Digyswllt o Bobl sy'n Chwistrellu Cyffuriau, a modiwl Feirysau a Gludir yn y Gwaed Cronfa Ddata Lleihau Niwed Iechyd Cyhoeddus Cymru.

14.2.1 Arolwg Monitro Dienw Digyswllt o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau

Mae Arolwg Monitro Dienw Digyswllt o Bobl sy'n Chwistrellu Cyffuriau yn arolwg blynyddol o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau sy'n defnyddio gwasanaethau cyffuriau arbenigol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae wedi'i gydlynw gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.²⁷ Oherwydd oedi wrth ryddhau data, mae'r data yn yr adran hon flwyddyn ar ei hôl hi. Mae'r Arolwg Monitro Dienw Digyswllt yn cynnal prawf smotiau gwaed sych ar gyfer hepatitis B a C a HIV, yn ogystal ag yn gofyn i gyfranogwyr gwblhau arolwg dienw ar ymddygiadau risg. Yn 2023, roedd 128 o bobl yng Nghymru wedi cwblhau'r arolwg.²⁸ Mae nifer yr ymatebwyr yn parhau i fod yn llawer is nag yr oedd cyn 2020.

Rhannu mewn modd uniongyrchol ac anuniongyrchol

Yn 2023, nododd cyfanswm o 53.2 y cant o'r ymatebwyr eu bod erioed wedi rhannu offer chwistrellu mewn modd uniongyrchol (nodwyddau a chwistrellau wedi'u defnyddio gan rywun arall yn flaenorol). O'r rhai a nododd eu bod wedi chwistrellu yn ystod y mis diwethaf (n=52), nododd 21.2 y cant eu bod wedi rhannu mewn modd uniongyrchol. Cododd hyn i 31.5 y cant wrth ystyried rhannu mewn modd uniongyrchol ac anuniongyrchol (offer chwistrellu gan gynnwys hidlwyr a phoptai) yn ystod y 28 diwrnod diwethaf.

²⁷ Mae rhagor o wybodaeth a data o'r Arolwg Monitro Dienw Digyswllt ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/people-who-inject-drugs-hiv-and-viral-hepatitis-monitoring/unlinked-anonymous-monitoring-uam-survey-of-hiv-and-viral-hepatitis-among-people-who-inject-drugs-pwid-2023-report#results>

²⁸ Ni chafodd pob cwestiwn ei ateb gan bawb.

14.3 Cyffredinrwydd haint firws a gludir yn y gwaed ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau

Hepatitis B

Yn 2023, darparodd 9 o 120 o ymatebwyr yng Nghymru smotiau gwaed sych a gafodd brawf positif am hepatitis B (antigen craidd hepatitis B), sef cyfradd o 7.5 y cant, sy'n uwch na'r 5.2 y cant yn 2022. Mae hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae'n fwy cyson â'r chwe blynedd cyn hynny lle'r gyfran gyfartalog oedd 8.4 y cant. Adroddwyd mai canran y bobl wnaeth gwblhau'r Arolwg Monitro Dienw Digyswllt oedd wedi cael brechiad hepatitis B yng Nghymru oedd 61.2 y cant (n= 74/121) yn 2023.

Hepatitis C

Y gyfran â phrofion adweithiol ar gyfer gwrthgyrff hepatitis C (gwrthgyrff HCV) oedd 50.8 y cant (n=61/120 o ymatebwyr). Er bod hyn yn ostyngiad bach o 2022, mae cyfraddau haint ar gyfer hepatitis C wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, o 26 y cant yn 2010. O'r rhai oedd wedi cael canlyniad adweithiol ar gyfer gwrthgyrff HCV, roedd 8.6 y cant wedi cael prawf positif ar gyfer HCV-RNA, sy'n dynodi haint cyfredol y mae angen triniaeth ar ei chyfer.

HIV

Yn 2023, cyfradd yr haint HIV oedd 0.9 y cant ymhlith y rhai o Gymru a gwblhaodd yr Arolwg Monitro Dienw Digyswllt, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Yn ogystal â data'r Arolwg Monitro Dienw Digyswllt, mae Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, mewn cydweithrediad ag asiantaethau iechyd y cyhoedd o wledydd y DU, yn adrodd ar nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU yn flynyddol, ynghyd â'r rheswm tebygol dros ddod i gysylltiad â'r firws lle mae'n cael ei hunan-adrodd. Yn 2023, roedd 91 o achosion newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru gyda'r nifer hwn yn gostwng i 73 yn 2024.²⁹ Dangosodd data dod i gysylltiad tebygol fod <5 o'r achosion newydd yn 2023 a 2024 wedi'u hadrodd yn ganlyniad defnyddio cyffuriau drwy chwistrellu.

14.3.1 Cronfa Ddata Lleihau Niwed: Modiwl Firysau a Gludir yn y Gwaed

Mae modiwl Firysau a Gludir yn y Gwaed Cronfa Ddata Lleihau Niwed Iechyd Cyhoeddus Cymru yn system wyliadwriaeth genedlaethol sy'n cofnodi'r holl weithgarwch ar lefel cleifion sy'n ymwneud â firysau a gludir yn y gwaed mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cymunedol cysylltiedig, o brofion sgrinio i ganlyniadau triniaeth dros amser. Fe'i datblygwyd i gefnogi rhoi profion sgrinio optio allan arferol ar waith ledled Cymru, ac i fynd law yn llaw â nhw, yn rhan o gamau Llywodraeth Cymru i gyflawni targedau dileu Hepatitis C Sefydliad Iechyd y Byd.

²⁹Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025): Tueddiadau mewn atal, diagnosio a thrin HIV yng Nghymru Adroddiad blynyddol 2025 (Data hyd at ddiwedd 2024). Ar gael yn: icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/tueddiadau-mewn-atal-diagnosio-a-thrin-hiv-yng-nghymru/

Mae nifer y profion ar gyfer Feirysau a Gludir yn y Gwaed wedi'u cofnodi yn y Gronfa Ddata Lleihau Niwed wedi cynyddu ers y pandemig.³⁰ Yn 2024 (blwyddyn galendr):

- Cafodd cyfanswm o 7,281 o unigolion brawf hepatitis C mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, ac o'r rhain roedd gan 5,795 ganlyniadau prawf dilys ar gyfer gwrthgyrff HCV. O'r rhain, cafodd gwrthgyrff (adweithiol) eu canfod mewn 9.1 y cant (n= 530). Ymhlith unigolion a nododd eu bod 'erioed wedi chwistrellu cyffuriau', y gyfradd oedd 21.1 y cant
- Ledled Cymru, cafodd <1.0 y cant o unigolion a gafodd brawf HBsAg a HIV mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau brawf positif

14.3 Amcangyfrifon o ddefnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yng Nghymru

Yng Nghymru, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru amcangyfrif blynyddol o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus, gan ddefnyddio diffiniad wedi'i addasu o Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA): "injecting drug use or long duration or regular use of opioids, cocaine and/or amphetamines [including amphetamine type substances]". Mae'r prif ffigurau ar gyfer amcangyfrifon o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yng Nghymru yn 2021-22, gan gynnwys poblogaethau nad ydynt mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau, yn awgrymu bod cyfanswm o 51,110 (cyfwng hyder o 95% (CI) 38,100 – 68,340) o ddefnyddwyr cyffuriau broblemus yn ystod y cyfnod. Yn Atodiad G, rhoddir manylion y dulliau a gaiff eu defnyddio i baratoi'r amcangyfrif hwn o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus ar gyfer Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyhoeddi amcangyfrif newydd o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus gan ddefnyddio methodoleg wahanol, felly *nid oes amcangyfrif wedi'i ddiweddararu ar gael ar hyn o bryd*.


³⁰ Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Tueddiadau mewn atal, diagnosio a thrin hepatitis B a hepatitis C yng Nghymru: Adroddiad gwyliadwriaeth blynyddol 2025 (Data hyd at ddiwedd 2024) Ar gael yn: icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/tueddiadau-mewn-atal-diagnosio-a-thrin-hepatitis-b-a-hepatitis-c-yng-nghymru/

15 Marwolaethau cysylltiedig ag alcohol

15.1 Marwolaethau penodol i alcohol yn ôl blwyddyn gofrestru

Fel y disgrifir yn Atodiad B, mae dau ddull o gyfrifo marwolaethau cysylltiedig ag alcohol: un a gaiff ei ddefnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r llall gan ddefnyddio Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol. Mae'r is-adran hon o farwolaethau penodol i alcohol yn disgrifio marwolaethau yn ôl blwyddyn fel y'u cyfrifwyd gan ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn caniatáu cymharu ag adroddiadau mewn blynyddoedd blaenorol a gyda ffigurau o wledydd eraill y DU. Yn ddiweddar, cafodd diffiniad marwolaeth penodol i alcohol o'i gymharu â marwolaeth cysylltiedig ag alcohol ei ddiweddarau. Cafodd y diffiniad gwreiddiol ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn mewn blynyddoedd blaenorol. Caiff y ddau eu cyflwyno yma er mwyn sicrhau parhad. Bydd is-adrannau dilynol yn cyflwyno ffigurau mwy manwl wedi'u paratoi gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru gan ddefnyddio dull Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol.


Gan ddefnyddio diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn 2024 roedd 633 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol, a 538 o farwolaethau penodol i alcohol wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae hyn yn ostyngiad o 7.3 a 4.3 y cant yn y drefn honno o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Ffigur 39 yn dangos nifer y marwolaethau penodol i alcohol wedi'u cofrestru yng Nghymru ym mhob un o'r deng mlynedd diwethaf hyd at 2024 gan ddefnyddio dull y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl blwyddyn.



Ffigur 39: Nifer y marwolaethau penodol i alcohol yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth yng Nghymru 2015-2024

15.2 Marwolaethau penodol i alcohol yn ôl rhyw a grŵp oedran


Roedd marwolaethau penodol i alcohol yng Nghymru yn uwch yn y grŵp oedran 50-69 nag yn yr holl grwpiau oedran eraill gyda'i gilydd, sef 59.7 y cant o farwolaethau yn y categori hwn yn 2024 (gweler Ffigur 40). Roedd nifer y marwolaethau'n uwch ymhlith dynion na menywod, gyda 65.4 y cant (n=352) o farwolaethau'n ymwneud â dynion. Mae nifer y marwolaethau penodol i alcohol wedi cynyddu dros y blynedd diwethaf ymhlith y ddau ryw, yn enwedig ymhlith menywod hŷn na 50 oed.



Ffigur 40: Nifer y marwolaethau penodol i alcohol yng Nghymru yn ôl grŵp oedran a rhyw penodol ar gyfer marwolaethau wedi'u cofrestru yn ôl blwyddyn, 2020-2024

15.3 Cyfraddau marwolaethau penodol i alcohol yng Nghymru yn ôl ardal Bwrdd Iechyd

Mae cyfraddau marwolaethau o achosion penodol i alcohol wedi'u safoni yn ôl oedran dros y cyfnod adrodd pum mlynedd diweddaraf wedi cynyddu 20.7 y cant, o 13.5 fesul 100,000 yn 2020 i 16.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024. Mae'r gyfradd hon wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2023 sef 17.2 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth. Dangosir cyfraddau ar lefel bwrdd iechyd yn Ffigur 41.




Ffigur 41: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran o farwolaethau penodol i alcohol wedi'u cofrestru yn ystod y flwyddyn, yn ôl blwyddyn a bwrdd iechyd


Roedd amrywiad daearyddol sylweddol yng nghyfraddau marwolaethau penodol i alcohol ar gyfer 2024. Mae tueddiadau'n parhau'n debyg i'r blynyddoedd diwethaf, ar wahân i Fwrdd Iechyd Hywel Dda a gynyddodd uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2023 ac sy'n parhau'n uchel yn 2024. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau penodol i alcohol, sef 23.2 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys oedd â'r gyfradd isaf, sef 8.4 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth.

15.3 Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol

Yn 2024, gostyngodd nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymhlith dynion a menywod, ond mae tueddiadau wedi parhau'n gymharol sefydlog ar draws grwpiau oedran yn ystod y pum mlynedd diwethaf (Ffigur 42). Y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran ar gyfer marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yng Nghymru oedd 20.4 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef yn is na'r ffigur 22.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi'i gofnodi yn 2023. Dangosir cyfraddau marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol wedi'u safoni yn ôl oedran ar lefel y bwrdd iechyd yn Ffigur 43. Mae'r patrwm ymhlith byrddau iechyd yn debyg i'r un ar gyfer marwolaethau penodol i alcohol wedi'i ddisgrifio uchod ac yn debyg i flynyddoedd blaenorol.



Ffigur 42: Nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol (dull Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol) yng Nghymru yn ôl grŵp oedran a rhyw penodol ar gyfer marwolaethau wedi'u cofrestru yn ôl blwyddyn, 2020-2024



Ffigur 43: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi'u cofrestru yn ystod y flwyddyn, yn ôl blwyddyn a bwrdd iechyd


16 Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd dau brif fesur mewn perthynas â marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau. 'Marwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau' sy'n cynnwys pob marwolaeth lle mae'r achos sylfaenol yn cyfeirio at ICD-10 sy'n gysylltiedig â chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon (heb gynnwys alcohol a thybaco). 'Marwolaethau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau' yw is-set o farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau sy'n cynnwys cyffuriau anghyfreithlon yn unig. Ceir disgrifiad mwy manwl o'r mesurau hyn yn Atodiad D. Oherwydd oedi wrth adrodd am farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau, mae'r holl ffigurau yn yr adran hon ar gyfer marwolaethau wedi'u cofrestru mewn blwyddyn benodol ac nid blwyddyn y farwolaeth.³¹

16.1 Marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau yn ôl rhyw a grŵp oedran

Yn 2024, cafodd 417 o farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru eu cofrestru, sef cynnydd o 10.6 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn galendr flaenorol. O blith yr holl farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau, cafodd 288 (69.1 y cant) eu nodi'n farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, gan gynyddu o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ran marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau, gwelwyd cynnydd mwy mewn marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau.


³¹ Iechyd Cyhoeddus Cymru: Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau 2024. Ar gael yn: <https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/cronfa-ddata-lleihau-niwed-cymru-marwolaethau-syn-gysylltiedig-a-chyffuriau/>



Ffigur 44: Nifer y marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau a chamdddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth

16.2 Marwolaethau o ganlyniad i gamdddefnyddio cyffuriau yn ôl rhyw a grŵp oedran

Fel y dangosir yn Ffigur 45, y grŵp oedran mwyaf cyffredin ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i gamdddefnyddio cyffuriau yw rhwng 40 a 49 oed, sef 33.6 y cant o'r holl farwolaethau o ganlyniad i gamdddefnyddio cyffuriau. Mae nifer y marwolaethau sy'n cynnwys unigolion o dan 30 oed wedi cynyddu i'r pwynt uchaf yn ystod y pum mlynedd diwethaf, er bod marwolaethau ymhlith unigolion rhwng 30 a 39 oed wedi gostwng ychydig. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd mwy o farwolaethau yn 2024 yn ymwneud â dynion na menywod. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn marwolaethau o ganlyniad i gamdddefnyddio cyffuriau ymhlith dynion rhwng 40 a 69 oed, tra bod marwolaethau ymhlith menywod yn parhau'n gymharol sefydlog ar draws pob oedran.



Ffigwr 45: Nifer y marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl grŵp oedran a rhyw penodol ar gyfer marwolaethau wedi'u cofrestru yn ôl blwyddyn, 2020-2024


16.3 Marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yn ôl sylweddau wedi'u hadrodd

Gan fod y diffiniad o 'farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau' yn eithrio sylweddau nad ydynt yn cael eu rheoli o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, mae'r adran hon yn edrych ar bob marwolaeth o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau. Gellir cofnodi mwy nag un sylwedd ar gyfer pob marwolaeth. Mae'r ffigurau yn yr adran hon yn ymwneud â'r holl gyffuriau wedi'u cofnodi ac felly gall marwolaeth gael ei chynrychioli mewn mwy nag un grŵp sylweddau.

Marwolaethau sy'n ymwneud ag opioidau yw'r grŵp sylweddau mwyaf cyffredin o hyd mewn perthynas â marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau, yn bennaf marwolaethau sy'n ymwneud ag opioidau eraill, fel y dangosir yn Ffigur 46. Mae nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â heroin/morffin yn 2024 wedi cynyddu ychydig, o 102 o farwolaethau wedi'u cofrestru yn 2023 i 110 yn 2024. Dyma'r nifer uchaf o farwolaethau o ganlyniad i heroin/morffin wedi'u cofnodi erioed. Mae nifer y marwolaethau sy'n ymwneud ag opioidau eraill yn 2024 hefyd wedi cynyddu i'r lefel uchaf erioed, gan gynyddu i 115 o 87 yn y flwyddyn flaenorol.

Mae nifer y marwolaethau sy'n cynnwys cocên wedi cynyddu o 65 yn 2023 i 79 yn 2024, y nifer uchaf wedi'i gofnodi ar gyfer y sylwedd hwn. Mae'n nodi cynnydd parhaus a chyflym

dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd cynnydd hefyd yn nifer y marwolaethau yn ymwneud â bensodiasepinau (67 i 83) a gwrthiseluddion (51 i 58), sef y nifer uchaf o farwolaethau wedi'u cofnodi erioed ar gyfer y ddau grŵp sylweddau.




Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025

Ffigur 46: Nifer y marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru lle cafodd sylweddau dethol eu cofnodi, marwolaethau wedi'u cofrestru 2015 i 2024

16.4 Marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ôl ardal Bwrdd Iechyd


Y gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau wedi'u cofrestru yn 2024 yng Nghymru oedd 9.7 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth o'i chymharu ag 8.8 yn 2023. Yn 2024, cofnodwyd y gyfradd uchaf o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gyda chyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran o 15.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd cyfradd marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd fel y dangosir yn Ffigur 47.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025

Ffigwr 47: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau wedi'u cofrestru yng Nghymru, yn ôl Bwrdd Iechyd a blwyddyn, 2020 i 2024, gyda'r gyfradd genedlaethol ar gyfer 2024 (coch)

Mae Ffigwr 48 yn dangos cyfartaledd treigl tair blynedd y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer 2022-24 yn ôl awdurdod lleol.




Ffigur 48: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl Awdurdod Lleol ar gyfer 2024, gyda'r cyfraddau cenedlaethol ar gyfer Cymru (coch)

17 Troseddau cyffuriau wedi'u cofnodi gan yr heddlu a phurdeb cyffuriau wedi'u hatafael gan yr heddlu: pob oedran

17.1 Troseddau cyffuriau wedi'u cofnodi yng Nghymru

Cofnododd Heddluoedd Cymru gyfanswm o 9,017 o droseddau cyffuriau yng Nghymru yn 2024/25, sef cynnydd o 28.4 y cant o'i gymharu â 2023/24, sef cynnydd wedi'i weld ar draws pob ardal o Gymru.³²


Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, De Cymru a gofnododd y nifer uchaf o droseddau cyffuriau gyda 3,990 o droseddau wedi'u cofnodi, sef cynnydd o 42.9 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2024, roedd cynnydd mewn troseddau cyffuriau ym mhob Ardal Heddlu. Dangosir nifer y troseddau cyffuriau wedi'u cofnodi gan Heddluoedd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf yn Ffigur 49.



Ffigur 49: Nifer y troseddau cyffuriau wedi'u cofnodi gan Heddluoedd Cymru yn ôl blwyddyn a heddlu, 2020/21 i 2024/25

³² Cafwyd y data ar gyfer gweithgarwch yr heddlu yng Nghymru o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac maent ar gael yn <https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables>

Fodd bynnag, mae nifer y trigolion yn yr ardaloedd heddlu hyn yn amrywio'n sylweddol ac, felly, mae cyfradd y troseddau cyffuriau ym mhob ardal yn fesur cymharol mwy priodol. Yn 2024/25, cafodd y gyfradd uchaf fesul 1,000 o droseddau cyffuriau ei chofnodi yn Nyfed-Powys, sef 3.4 o droseddau cyffuriau wedi'u cofnodi fesul 1,000 o'r boblogaeth, sy'n uwch na'r 3.0 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2023. Cafodd y gyfradd isaf ei chofnodi yng Ngogledd Cymru, sef 2.1 trosedd fesul 1,000 o'r boblogaeth. Cyfradd gyffredinol y troseddau cyffuriau wedi'u cofnodi yng Nghymru oedd 2.8 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Dangosir cyfradd y troseddau wedi'u cofnodi gan yr heddlu yn ôl blwyddyn ac ardal Heddlu Cymru yn Ffigur 50.



Ffigur 50: Cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth o droseddau cyffuriau wedi'u cofnodi gan Heddluoedd Cymru yn ôl blwyddyn a heddlu, 2020/21 i 2024/25, gyda chyfradd gyfartalog Cymru (coch)


17.2 Atafaelu cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru

Oherwydd oedi wrth ryddhau data, mae'r data yn yr adran hon flwyddyn ar ei hôl hi. Roedd 7,041 achos o atafaelu cyffuriau anghyfreithlon gan Heddluoedd Cymru yn 2023/24, sef gostyngiad o 5.5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o 2.2 achos o atafaelu fesul 1,000 o'r boblogaeth yng Nghymru, sef gostyngiad o 2.4 fesul 1,000 o'r boblogaeth y flwyddyn flaenorol. Cyfradd yr atafaelu yn Lloegr oedd 2.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth. O'r holl achosion o atafaelu yng Nghymru, roedd 28.3 y cant (n = 1,994) yn cynnwys sylweddau Dosbarth A.

Roedd mwyafrif (66.1 y cant) yr achosion o atafaelu'n ymwneud â chanabis (n = 4,652), gyda 24.2 y cant pellach o'r holl achosion o atafaelu ar gyfer cocên neu grac cocên (n = 1,703), 4.8 y cant ar gyfer heroin a 3.9 y cant ar gyfer amffetaminau.


Roedd Heddlu De Cymru yn gyfrifol am 37.2 y cant o'r holl achosion o atafaelu yng Nghymru. Cofnododd Heddlu De Cymru hefyd gyfrannau uwch o achosion o atafaelu cyffuriau Dosbarth A gan gynnwys 57.9 y cant o'r holl achosion o atafaelu heroin a 42.5 y cant o'r holl achosion o atafaelu cocên yn 2023/24.

Cymru oedd yn gyfrifol am 3.2 y cant o'r achosion o atafaelu cyffuriau yng Nghymru a Lloegr yn 2023/24. Dangosir nifer yr achosion o atafaelu wedi'u cofnodi gan yr heddlu yng Nghymru ar gyfer cyffuriau dethol yn Ffigur 51.



Ffigur 51: Nifer yr achosion o atafaelu gan Heddluoedd Cymru, 2023/24, cyffuriau dethol

Mae Ffigur 52 yn dangos cyfradd yr atafaelu fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer pob un o bedwar Heddlu Cymru a chyfartaledd Cymru rhwng 2019/20 a 2023/24.



Ffigur 52: Cyfradd atafaelu cyffuriau anghyfreithlon gan Heddluoedd Cymru fesul 1,000 o'r boblogaeth, yn ôl heddlu a chyfartaledd Cymru (coch), 2019/20 i 2023/24

17.3 Pris a phurdeb cyffuriau anghyfreithlon dethol – y DU

Adroddodd UK Focal Point, sy'n darparu data ar dueddiadau cyffuriau i Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA), ar bris a phurdeb cyffuriau dethol yn flaenorol.³³ Fodd bynnag, y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pris a phurdeb yw o 2018, felly ni chafodd yr wybodaeth ddiweddaraf ei darparu. Mae ffynonellau data ar bris a phurdeb cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru yn cael eu harchwilio o hyd; felly, mae'r adran hon yn crynhoi'r data lefel y DU wedi'u cyhoeddi yn fwyaf diweddar gan UK Focal Point.

Mae data hanesyddol ar gyfer y DU yn awgrymu bod prisiau cyffuriau wedi parhau'n gymharol sefydlog rhwng 2010 a 2018 ar gyfer y rhan fwyaf o sylweddau. Fodd bynnag, roedd pris cocên powdr ddwywaith yn fwy drud yn 2017, o £40 y gram i £80, a allai adlewyrchu'r cynnydd mewn purdeb cyffredinol. Cynyddodd purdeb meintiau bach o gocên a chrac cocên wedi'u hatafael rhwng 2009 a 2018, gan gyrraedd uchafswm 10 mlynedd yn 2018. Arhosodd purdeb heroin yn gyson rhwng 2009 a 2018 ar lefelau tebyg i'r rhai cyn y cyfnod lle'r oedd prinder heroin. Er nad oes data ar burdeb cymedrig tabledi MDMA wedi'u hatafael ar gael yn adroddiad UK Focal Point, mae tystiolaeth ddiweddar gan Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) yn dangos bod purdeb MDMA yn gyffredinol yn parhau'n sefydlog ledled Ewrop.³⁴

³³ Mae adroddiadau blynyddol UK Focal Point ar gael yn <http://www.nta.nhs.uk/focalpoint.aspx>

³⁴ EMCDDA (2023) European Drug Report 2023: Trends and Developments. Ar gael yn: https://www.euda.europa.eu/publications/european-drug-report/2024/mdma_en

18 Atodiadau

Atodiad A: Derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol - diffiniadau

Pan gaiff unigolyn ei dderbyn i'r ysbyty, disgrifir y cyfnod rhwng derbyn a rhyddhau neu farwolaeth fel 'cyfnod'. Gall cyfnod gynnwys nifer o 'gyfnodau' gwahanol lle mae'r claf dan ofal ymgynghorydd wedi'i enwi. Bydd cyfnod newydd yn dechrau pan fydd claf yn cael ei drosglwyddo i ofal ymgynghorydd arall, boed hyn oherwydd bod angen meddygol gwahanol wedi'i nodi, oherwydd bod y claf wedi cyrraedd man pontio yn ei gam gwella neu angen am ofal, neu am ryw reswm arall. Ar gyfer pob cyfnod, mae'r cyflwr wedi'i nodi fel yr un mwyaf perthnasol mewn perthynas â'i broses derbyn i'r ysbyty neu driniaeth barhaus yn cael ei gofnodi gan staff meddygol, ochr yn ochr â chyflyrau eilaidd pellach sy'n effeithio ar driniaeth ac unrhyw ffactorau allanol sy'n ymwneud â'r broses derbyn. Mae'r cofnodion hyn wedi'u codio i fframwaith safonol o'r enw Dosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol o Glefydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig, sydd bellach yn ei ddegfed argraffiad ac felly'n cael ei adnabod fel yr 'ICD-10'. Mae disgrifiadau llawn o'r cyflyrau sy'n gysylltiedig â phob cod ICD-10 ar gael gan Sefydliad Iechyd y Byd yn

<http://apps.who.int/classifications/icd10/browse/2010/en>.

Mae pedwar dimensiwn allweddol ar gyfer mesur effaith alcohol ar iechyd y boblogaeth ac ar y gwasanaethau gofal iechyd sy'n darparu gofal meddygol trwy dderbyniadau i'r ysbyty. Disgrifir y dimensiynau hyn yn Tabl 5.

Tabl 5: Dimensiynau a gaiff eu defnyddio er mwyn mesur effaith alcohol ar boblogaethau a gwasanaethau gofal iechyd.

Dimensiwn	Disgrifiad ac opsiynau
Detholiad o godau craidd ICD-10	Y dewis o godau ICD-10 i'w cynnwys yn y dadansoddiad. Ar gyfer derbyniadau yn gysylltiedig ag alcohol, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio codau ICD-10 wedi'u creu yn wreiddiol gan Ganolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl ³⁵ a'u mabwysiadu gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr ³⁶ . Cyfeirir at y rhain yn aml fel 'Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol'. Sylwch fod dadansoddiad o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol yn yr adroddiad hwn wedi defnyddio diffiniad Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol a'r diffiniad a gaiff ei ddefnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gweler Atodiad B. Ceir rhestr o bob cod ICD-10 Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol yn Nhabl 6 isod.

³⁵ Jones, L a Bellis, M (2013) Updating England-specific alcohol-attributable fractions, Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. Ar gael yn https://fingertips.phe.org.uk/documents/2014_03_updating_england_specific_alcohol_attributable_fractions.pdf

³⁶ Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2015) Local Alcohol Profiles for England 2015 user guide. Ar gael yn <https://fingertips.phe.org.uk/profile/local-alcohol-profiles/supporting-information/resources>

'Penodol' neu 'y gellir ei briodoli'	Yn gyffredin, diffiniad 'cyflyrau penodol i alcohol' yw'r cyflyrau hynny wedi'u priodoli heb os i ddefnyddio alcohol. Mae hyn yn cynnwys clefyd yr iau/afu alcoholaidd Fodd bynnag, mae alcohol hefyd yn chwarae rhan mewn ystod ehangach o 'gyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol'. Er enghraifft, amcangyfrifir bod alcohol yn chwarae rhan achosol mewn 25-33 y cant o arhythmias cardiaidd, gyda'r gyfran yn amrywio yn ôl rhyw ac oedran.³⁷. Mae gan rai codau achos allanol hefyd ffracsiwn y gellir ei briodoli i alcohol: amcangyfrifwyd bod 27 y cant o ymosodiadau yn gysylltiedig ag alcohol.³⁷. Fel y disgrifir uchod, mae Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol, sy'n disgrifio cyfraniad achosol alcohol ar draws y boblogaeth, wedi'u cyfrifo ar gyfer ystod o gyflyrau ac mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi defnyddio'r ffracsiynau hyn i baratoi ffigurau ar gyfer derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol sydd wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Mae 'cyflwr y gellir ei briodoli i alcohol' yn cynnwys pob 'cyflwr penodol i alcohol', gan fod y rhain, yn ôl y diffiniad, yn cael eu hachosi heb os gan alcohol. Dangosir rhestr o bob cod ICD-10 Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol yn Nhabl 6 isod.
Safle diagnostig	Mae modd cyfrif cofnodion os ydynt yn cynnwys unrhyw god perthnasol yn y prif safle diagnostig neu os ydynt yn cynnwys unrhyw god perthnasol mewn unrhyw safle diagnostig (prif safle neu safle eilaidd). Wrth ystyried cyflyrau penodol i alcohol (gweler uchod) y mesur a gaiff ei ddefnyddio amlaf yw derbyniadau gyda chyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn unrhyw safle ('unrhyw safle'); fodd bynnag, mae ffigurau ar gyfer derbyniadau gyda chyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol yn y prif safle hefyd yn cael eu nodi weithiau ('prif safle'). Mae'r dulliau ar gyfer paratoi ffigurau ar gyfer cyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol (gweler uchod) hefyd yn cynnwys cyfrifo mesurau yn seiliedig ar brif ddiagnosis a diagnosis eilaidd; fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau rhwng y cyfrifiadau hyn a'r rhai a gaiff eu defnyddio i baratoi ffigurau penodol i alcohol. Mae 'mesur cul' yn cynnwys pob cofnod lle'r oedd y prif ddiagnosis yn gyflwr y gellir ei briodoli i alcohol, NEU lle'r oedd unrhyw ddiagnosis eilaidd yn 'achos allanol' (gweler Tabl 6 a Thabl 9). Mae 'mesur eang' yn cynnwys pob cofnod lle ymddangosodd unrhyw gyflwr y gellir ei briodoli i alcohol mewn unrhyw safle diagnostig. Yn y ddau achos, lle mae mwy nag un cyflwr y gellir ei briodoli i

³⁷ Perkins, C a Hennessey, M (2014) Understanding alcohol-related hospital admissions. Prif Swyddog Gwybodaeth, blog Materion Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Lloegr.
<https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2014/01/15/understanding-alcohol-related-hospital-admissions/>

	alcohol yn y cofnod, dewisir y cyflwr gyda'r ffracsiwn uchaf y gellir ei briodoli i alcohol. Hefyd, gweler isod am ryngweithiadau rhwng safle diagnostig a ffigurau yn seiliedig ar berson/cyfnod.
Yn seiliedig ar berson neu yn seiliedig ar dderbyniadau	Gellir cyfrifo ffigurau ar gyfer nifer yr unigolion a gaiff eu derbyn ('yn seiliedig ar berson') neu ar gyfer cyfanswm y derbyniadau ('yn seiliedig ar dderbyniadau'), gan gofio y bydd rhai unigolion yn cael eu derbyn fwy nag unwaith mewn cyfnod penodol o amser. Gall mesurau yn seiliedig ar berson gynnig darlun mwy defnyddiol o iechyd y boblogaeth; gall ffigurau yn seiliedig ar dderbyniadau fod yn fwy perthnasol wrth ystyried y baich y mae amodau penodol yn ei roi ar wasanaethau. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio mesurau yn seiliedig ar berson. Yn dilyn y confensiynau wedi'u mabwysiadu gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrif derbyniadau o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau sy'n seiliedig ar berson ar sail cod ICD-10 perthnasol yn ymddangos ar gyfer unrhyw ran o'r cyfnod. Ar gyfer ffigurau yn seiliedig ar dderbyniadau, dim ond derbyniadau y mae'r cyflwr perthnasol yn ymddangos ar eu cyfer yn y cofnod ar gyfer y cyfnod derbyn sy'n cael eu cynnwys.

Mae ystod eang o ystyriaethau technegol yn ymwneud â datblygu mesurau dros amser a'r dulliau o echdynnu a dadansoddi data. Lle ceir cymariaethau rhwng Cymru a Lloegr yn yr adroddiad hwn, ystyrir bod ffigurau'n gymharol; fodd bynnag, efallai y bydd gwahaniaethau bach yn y ffordd y caiff data eu diffinio a'u prosesu. Am drafodaeth fanylach ar sut mae ffigurau derbyniadau yn gysylltiedig ag alcohol yn cael eu paratoi ar gyfer Cymru, gweler Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac iechyd yng Nghymru 2014, Canllaw Technegol ([https://www2.nphs.wales.nhs.uk/PublicHealthObservatoryProjDocs.nsf/Public/D6F2B0BFE9F03C5780257D7300359297/\\$file/AlcoholAndHealthInWales2014\(W\)_v2a.pdf?OpenElement](https://www2.nphs.wales.nhs.uk/PublicHealthObservatoryProjDocs.nsf/Public/D6F2B0BFE9F03C5780257D7300359297/$file/AlcoholAndHealthInWales2014(W)_v2a.pdf?OpenElement))

Am fanylion ynghylch paratoi ffigurau ar gyfer Lloegr, gweler: Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2015) Local Alcohol Profiles for England 2015 user guide (http://www.lape.org.uk/downloads/LAPE%20User%20Guide_Final.pdf)

Cafodd y codau ICD-10 diweddaraf ar gyfer cyflyrau penodol i alcohol ac y gellir eu priodoli i alcohol eu cyhoeddi yn 2013 ac maent wedi'u nodi yn Tabl 6. Sylwch fod codau wedi'u diweddarau yn rhifyn 2013 o'r Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol wedi ychwanegu saith cod at y set o godau penodol i alcohol wedi'u nodi yn y rhifyn blaenorol (2008) a gafodd eu defnyddio ar gyfer fersiynau blaenorol o'r adroddiad hwn. Gyda'i gilydd, roedd y codau hyn, wedi'u nodi yn Nhabl 3, yn gyfrifol am 250 o dderbyniadau gyda diagnosis penodol i alcohol mewn unrhyw safle yn 2013-14, sef 1.6 y cant o'r cyfanswm.

Tabl 6: Codau ICD-10 ar gyfer cyflyrau penodol i alcohol ac y gelir eu priodoli i alcohol, fel y'u diffinnir gan y Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i alcohol (2013)

Cyflwr	Cod
<i>Cyflyrau penodol i alcohol (heb os wedi'u hachosi gan alcohol)</i>	
Ffug Syndrom Cushing wedi'i achosi gan alcohol	E24.4
Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol o ganlyniad i ddefnyddio alcohol	F10
Dirwyiad y system nerfol o ganlyniad i alcohol	G31.2
Polyniwropathi alcoholaidd	G62.1
Myopathi alcoholaidd	G72.1
Cardiomyopathi alcoholaidd	I42.6
Llid y stumog (<i>gastritis</i>) alcoholaidd	K29.2
Clefyd yr iau/afu alcoholaidd	K70
Llid y cefndedyn (<i>pancreatitis</i>) aciwt wedi'i achosi gan alcohol*	K85.2*
Llid y cefndedyn (<i>pancreatitis</i>) cronig wedi'i achosi gan alcohol	K86.0
Syndrom alcohol y ffetws (dysmorffig)*	Q86.0*
Lefelau qormodol o alcohol yn y gwaed*	R78.0*
Gwenwyno gan ethanol	T51.0
Gwenwyno gan fethanol	T51.1
Effaith wenwynig alcohol, heb ei nodi	T51.9
Gwenwyno damweiniol gan a thrwy gysylltiad ag alcohol	X45
Hunan-wenwyno bwriadol gan a thrwy gysylltiad ag alcohol	X65
Gwenwyno gan a thrwy gysylltiad ag alcohol, bwriad amhendant*	Y15
Tystiolaeth o alcohol yn chwarae rhan wedi'i phennu gan lefel alcohol yn y gwaed*	Y90
Tystiolaeth o alcohol yn chwarae rhan wedi'i phennu gan lefel meddwdod*	Y91
<i>*Codau wedi'u hychwanequ at y rhestr o gyflyrau penodol i alcohol yn 2013</i>	
<i>Cyflyrau y gellir eu priodoli'n rhannol i alcohol</i>	
<i>Cyflyrau cronig</i>	
<i>Afiechydion heintus a pharasitia</i>	
Twbercwlosis	A15-A19
<i>Neoplasm malaen</i>	
Neoplasm malaen o'r qwefus, ceudod y qeq, a'r ffaryncs	C00-C14

Neoplasm malaen yr oesoffaqws	C15
Neoplasm malaen y colon a'r rhefr	C18-C20, C21
Neoplasm malaen o'r iau/afu a'r dwythellau bustl yn yr iau/afu	C22
Neoplasm malaen o'r laryncs	C32
Neoplasm malaen o'r fron	C50
Clefydau'r system nerfol	
Epilepsi a Status epilepticus	G40-G41
Clefyd cardiofasgwlaidd	
Clefydau qorbwysedd	I10-I15
Clefyd isgemiq y qalon	I20-I25
Arhythmias cardiaidd	I47-I48
Strôc waedlifol	I60-I62, I69.0-I69.2
Strôc isgemiq	I63-I66, I69.3-I69.4
Gwythiennau chwyddediq oesoffagaidd	I85
Heintiau anadlol	
Niwmonia	J10.0, J11.0, J12-J15,
Clefyd treulio	
Clefyd yr iau/afu heb ei nodi	K73, K74
Colelithiasis (cerriq bustl)	K80
Llid y cefndedyn (<i>pancreatitis</i>) aciwt a chroniq	K85, K86.1
Beichiogrwydd a genedigaeth	
Erthvliad diqymell	O03
Pwysau qeni isel	P05-P07
Cyflyrau aciwt	
Anafiadau anfwriadol	
Damweiniau traffiq ffyrdd/cerddwyr	*
Gwenwyno	X40-X49
Anafiadau oherwydd cwympo	W00-W19
Anafiadau tân	X00-X09
Boddi	W65-W74
Anafiadau anfwriadol eraill	*
Anafiadau bwriadol	
Hunan-niweidio bwriadol	X60-X84, Y87.0
Diqwyddiad o fwriad amhendant	Y10-Y34, Y87.2
Ymosodiad	X85-Y09, Y87.1

Yn ogystal ag adrodd ar niferoedd a chyfraddau ar gyfer pob cyflwr penodol i alcohol ac sydd wedi'i briodoli i alcohol, mae'r adroddiad hwn hefyd yn adrodd ar dri is-gategori o dderbyniadau yn gysylltiedig ag alcohol: y rhai sy'n gysylltiedig â syndrom alcohol y ffetws, diddyfnu gan y ffetws/y fam o alcohol a chyffuriau eraill sy'n achosi dibyniaeth, a niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dangosir y codau ICD-10 a gaiff eu defnyddio i ddiffinio'r cyflyrau hyn yn yr adroddiad hwn yn Nhabl 7.

Tabl 7: Codau ICD-10 a gaiff eu defnyddio i ddiffinio syndrom alcohol y ffetws, diddyfnu gan y fam o alcohol a chyffuriau sy'n achosi dibyniaeth a niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol yn yr adroddiad hwn.

Cyflyrau	Codau ICD-10
Syndrom alcohol y ffetws	Q860
Diddyfnu gan y ffetws/y fam o alcohol a chyffuriau sy'n achosi dibyniaeth	P043, P044, P961
Niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol	E512, E52, F106, F107, G312, G621, K704, G371

O ddiddordeb arbennig wrth ddadansoddi afiachedd a marwolaethau sy'n deillio o ddefnyddio cyffuriau ac alcohol yw'r codau ICD-10 sy'n gysylltiedig ag 'Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol o ganlyniad i ddefnyddio cyffuriau seicoweithredol', wedi'u codio F10-F19. Mae pob cod tair ffigur (F10, F11, ac ati) yn ymwneud â sylwedd penodol neu ddosbarth o sylweddau. Mae modd ychwanegu pedwerydd ffigur ychwanegol er mwyn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y cyflwr efallai bod yr unigolyn yn dioddef ohono. Mae manylion y pedwerydd nod wedi'i grynhoi yn Nhabl 8.

Tabl 8: Manylion cyflyrau a ddynodir gan bedwerydd nod codau ICD-10 sy'n dechrau gyda 'F'.

Fxx0	Meddwdod aciwt Cyflwr yn dilyn gweinyddu sylwedd seicoweithredol sy'n arwain at aflonyddwch yn lefel ymwybyddiaeth, gwybyddiaeth, canfyddiad, effaith neu ymddygiad, neu swyddogaethau ac ymatebion seico-ffisiolegol eraill. Mae'r aflonyddwch yn uniongyrchol gysylltiedig ag effeithiau ffarmacolegol aciwt y sylwedd ac yn diflannu gydag threigl amser, gan wella'n llwyr, oni bai bod niwed i feinwe neu gymhlethdodau eraill. Gall cymhlethdodau gynnwys trawma, anadlu chŵyd (<i>vomit</i>), deliriwm, coma, confylsiynau, a chymhlethdodau meddygol eraill. Mae natur y cymhlethdodau hyn yn dibynnu ar ddosbarth ffarmacolegol y sylwedd a'r dull gweinyddu.
-------------	---

	Meddwdod difrifol mewn alcoholiaeth "Triplau drwg" (cyffuriau) Meddwdod NOS Meddwdod patholegol Anhwylterau llesmair a meddiant mewn meddwdod sylweddau seicoweithredol Ac eithrio: meddwdod sy'n golygu gwenwyno
Fxx1	Defnydd niweidiol Patrwm o ddefnyddio sylweddau seicoweithredol sy'n achosi niwed i iechyd. Gall y niwed fod yn gorfforol (fel mewn achosion o hepatitis o ganlyniad i hunan-weinyddu sylweddau seicoweithredol a gaiff eu chwistrellu) neu'n feddyliol (e.e. cyfnodau o anhwylder iselder yn sgil yfed alcohol yn drwm). Camddefnyddio sylweddau seicoweithredol
Fxx2	Syndrom dibyniaeth Clwstwr o ffenomenau ymddygiadol, gwybyddol a ffisiolegol sy'n datblygu ar ôl defnyddio sylweddau dro ar ôl tro ac sydd fel arfer yn cynnwys awydd cryf i gymryd y cyffur, anawsterau wrth reoli ei ddefnydd, parhau i'w ddefnyddio er gwaethaf canlyniadau niweidiol, rhoi blaenoriaeth uwch i ddefnyddio cyffuriau nag i weithgareddau a rhwymedigaethau eraill, goddefgarwch cynyddol, ac weithiau cyflwr diddyfnu corfforol. Gall y syndrom dibyniaeth fod ar gyfer sylwedd seicoweithredol penodol (e.e., tybaco, alcohol, neu diazepam), ar gyfer dosbarth o sylweddau (e.e., cyffuriau opioid), neu ar gyfer ystod ehangach o sylweddau seicoweithredol sy'n wahanol yn ffarmacolegol. Alcoholiaeth gronig Dipsomania Bod yn ddibynnol i gyffuriau
Fxx3	Cyflwr diddyfnu Grŵp o symptomau o glwstwr a difrifoldeb amrywiol sy'n digwydd wrth ddiddifynu'n llwyr neu'n gymharol o sylwedd seicoweithredol ar ôl defnydd parhaus o'r sylwedd hwnnw. Mae dechrau a hynt y cyflwr diddyfnu wedi'u cyfyngu gan amser ac maent yn gysylltiedig â'r math o sylwedd seicoweithredol a'r dos sy'n cael ei ddefnyddio yn syth cyn rhoi'r gorau i'w ddefnyddio neu leihau ei ddefnydd. Gall y cyflwr diddyfnu gael ei gymhlethu gan gonfysliynau.
Fxx4	Cyflwr diddyfnu gyda deliriwm Cyflwr lle mae'r cyflwr diddyfnu fel y'i diffinnir yn y pedwerydd nod cyffredin .3 yn cael ei gymhlethu gan ddeliriwm fel y'i diffinnir yn F05.-. Gall confysliynau

	ddigwydd hefyd. Pan ystyrir bod ffactorau organig hefyd yn chwarae rhan yn yr etioleg, dylid dosbarthu'r cyflwr yn F05.8. Deliriwm tremens (wedi'i achosi gan alcohol)
Fxx5	Anhwylder seicotig Clwstwr o ffenomenau seicotig sy'n digwydd yn ystod neu ar ôl defnyddio sylweddau seicoweithredol ond nad ydynt yn cael eu hesbonio ar sail meddwdod aciwt yn unig ac nad ydynt yn rhan o gyflwr diddyfnu. Nodweddir yr anhwylder gan rithwelediadau (fel arfer clywedol, ond yn aml mewn mwy nag un modd synhwyrdd), ystumiau canfyddiadol, rhithdybiau (yn aml o natur baranoiaidd neu erlidiol), aflonyddwch seicomodur (cyfffro neu syrthni), ac effaith annormal, a all amrywio o ofn dwys i ecstasi. Mae'r synhwyrdd fel arfer yn glir ond efallai bod rhywfaint o gymylu ymwybyddiaeth, er nad dryswch difrifol. Alcoholaid: · rhithwewyr · cenfigen · paranoia Ac eithrio: anhwylder seicotig gweddilliol a dechreuad hwyr wedi'i achosi gan alcohol neu sylwedd seicoweithredol arall (F10-F19 gyda phedwerydd nod cyffredin .7)
Fxx6	Syndrom amnesig Syndrom sy'n gysylltiedig â nam cronig amlwg ar gof diweddar a chof pell. Fel arfer mae atgof uniongyrchol yn cael ei gadw, ac mae cof diweddar yn nodweddiadol yn fwy anhrefnus na chof pell. Mae synnwyr amser a threfn digwyddiadau anhrefnus fel arfer yn amlwg, yn ogystal ag anawsterau wrth ddysgu deunydd newydd. Efallai bod chwedleua wedi'i nodi ond nid yw'n bresennol bob amser. Fel arfer mae swyddogaethau gwybyddol eraill wedi'u cadw'n gymharol dda ac mae diffygion amnesig yn anghymesur i anhwylderau eraill. Anhwylder amnestig, seicosis neu syndrom Korsakov a achosir gan alcohol neu gyffuriau, sylwedd seicoweithredol arall a achosir gan alcohol neu heb ei nodi Ac eithrio: seicosis neu syndrom Korsakov nad yw'n alcoholaid (F04)
Fxx7	Anhwylder seicotig gweddilliol a dechreuad hwyr Anhwylder lle mae newidiadau mewn gwybyddiaeth, teimlad, personoliaeth neu ymddygiad wedi'u hachosi gan alcohol neu sylwedd seicoweithredol yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod y gellid tybio'n rhesymol bod effaith uniongyrchol sy'n gysylltiedig â sylwedd seicoweithredol yn gweithredu. Dylai dechrau'r anhwylder fod yn uniongyrchol gysylltiedig â defnyddio'r sylwedd

	seicoweithredol. Dylid codio achosion lle mae dechrau'r cyflwr yn digwydd yn ddiweddarach na chyfnod(au) defnyddio sylweddau o'r fath yma dim ond lle mae tystiolaeth glir a chryf ar gael i briodoli'r cyflwr i effaith weddilliol y sylwedd seicoweithredol. Gellir gwahaniaethu rhwng ôl-fflachiau a chyflwr seicotig yn rhannol oherwydd eu natur episodig, sydd yn aml yn fyr iawn o hyd, a thrwy eu dyblygu o brofiadau blaenorol sy'n gysylltiedig ag alcohol neu sylweddau seicoweithredol eraill. Dementia alcoholaidd NOS Syndrom ymennydd alcoholaidd cronig Dementia a mathau mwy cymedrol eraill o nam parhaus ar swyddogaethau gwybyddol Ôl-fflachiau Anhwylder seicotig dechreuad hwyr wedi'i achosi gan sylweddau seicoweithredol Anhwylder canfyddiad ôl-rhithbeiriau Gweddilliol: · anhwylder affeithiol · anhwylder personoliaeth ac ymddygiad Ac eithrio: y cyflyrau canlynol wedi'u hachosi gan alcohol neu sylwedd seicoweithredol: · Syndrom Korsakov (<u>F10-F19</u> gyda phedwerydd nod cyffredin .6) · cyflwr seicotig (<u>F10-F19</u> gyda phedwerydd nod cyffredin .5)
Fxx8	Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol eraill
Fxx9	Anhwylder meddyliol ac ymddygiadol heb ei nodi

Atodiad B: Marwolaethau cysylltiedig ag alcohol - diffiniadau

Fel y disgrifir yn Atodiad A, mae dwy set o ffigurau ar gael i ddisgrifio marwolaethau cysylltiedig ag alcohol, un a gaiff ei defnyddio gan lechyd Cyhoeddus Lloegr (y Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol) ac un wedi'i chreu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r ddwy fethodoleg yn diffinio 'marwolaeth cysylltiedig ag alcohol' o ran yr 'achos sylfaenol' (h.y. yr achos wedi'i nodi gan y meddyg a oedd yn gofalu am y cyflwr fel yr achos a gychwynnodd y gyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth) ac nid ydynt yn ystyried effaith cyflyrau eraill sy'n gysylltiedig ag alcohol a allai gael eu nodi ar y cofnod marwolaeth. Gellir defnyddio'r ddwy fethodoleg i baratoi ffigurau 'penodol i alcohol' (h.y., gan gynnwys y cyflyrau hynny y gellir eu priodoli'n llwyr i alcohol – gweler Atodiad A). Fel y dangosir yn Tabl 9, mae'r codau ICD-10 (gweler Atodiad A) a gaiff eu defnyddio i ddiffinio pob set o ffigurau 'penodol i alcohol' yn gorgyffwrdd yn sylweddol, ond nid ydynt yn union yr un fath.

Tabl 9: Amodau a gaiff eu defnyddio i gyfrifo marwolaethau cysylltiedig ag alcohol, Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol a diffiniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Sylwch fod amodau'r Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol a gaiff eu defnyddio i ddiffinio marwolaethau penodol i alcohol yn union yr un fath â'r rhai a gaiff eu defnyddio i ddiffinio derbyniadau i'r ysbyty yn benodol i alcohol.

Cyflwr	Cod ICD-10	Wedi'i gynnwys yn niffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol?	Wedi'i gynnwys yn niffiniad penodol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Alcohol?	Wedi'i gynnwys yn niffiniad Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol?
Ffug Syndrom Cushing wedi'i achosi gan alcohol	E24.4		✓	✓
Anhwyllderau meddyliol ac ymddygiadol o ganlyniad i ddefnyddio alcohol	F10*	✓	✓	✓
Dirywiad y system nerfol o ganlyniad i alcohol	G31.2	✓	✓	✓
Polyniwropathi alcoholaidd	G62.1	✓	✓	✓
Myopathi alcoholaidd	G72.1		✓	✓
Cardiomyopathi alcoholaidd	I42.6	✓	✓	✓
Llid y stumog (<i>gastritis</i>) alcoholaidd	K29.2	✓	✓	✓

Clefyd yr iau/afu alcoholaidd	K70*	✓	✓	✓
Hepatitis cronig heb ei ddosbarthu mewn man arall	K73*	✓		
Ffibrosis a sirosis yr iau/afu	K74 (Heb gynnwys K74.3-K74.5 - Sirosis bustlog)	✓		
Llid y cefndedyn (<i>pancreatitis</i>) aciwt wedi'i achosi gan alcohol	K85.2		✓	✓
Llid y cefndedyn (<i>pancreatitis</i>) cronig wedi'i achosi gan alcohol	K86.0	✓	✓	✓
Syndrom alcohol y ffetws (dysmorffig)	Q86.0		✓	✓
Lefelau gormodol o alcohol yn y gwaed	R78.0		✓	✓
Gwenwyno gan ethanol	T51.0			✓
Gwenwyno gan fethanol	T51.1			✓
Effaith wenwynig alcohol, heb ei nodi	T51.9			✓
Gwenwyno damweiniol gan a thrwy gysylltiad ag alcohol	X45*	✓	✓	✓
Hunan-wenwyno bwriadol gan a thrwy gysylltiad ag alcohol	X65*	✓	✓	✓
Gwenwyno gan a thrwy gysylltiad ag alcohol, bwriad amhendant	Y15*	✓	✓	✓
Tystiolaeth o alcohol yn chwarae rhan wedi'i phennu gan lefel alcohol yn y gwaed	Y90			✓
Tystiolaeth o alcohol yn chwarae rhan wedi'i phennu gan lefel meddwdod	Y91			✓
*Yn cynnwys pob un o'r cod pedwar nod sy'n dod o dan y cod tri nod hwn				

Yn ogystal â marwolaethau penodol i alcohol, gellir defnyddio methodoleg Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol i baratoi ffigurau ar gyfer marwolaethau 'y gellir eu priodoli i alcohol'. Fel y disgrifir yn fanwl yn Atodiad A, mae ffigurau ar gyfer cyflyrau 'y gellir eu priodoli i alcohol' yn adlewyrchu'r ffaith bod alcohol yn gysylltiedig â chyfran o ystod o gyflyrau meddygol o'i ystyried ar draws y boblogaeth gyfan. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn defnyddio'r fethodoleg Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol a gaiff ei defnyddio i baratoi ffigurau ar gyfer marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i ddisgrifiadau mwy manwl o'r methodolegau sy'n sail i'r dulliau hyn o baratoi ffigurau marwolaethau cysylltiedig ag alcohol ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn:

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) Alcohol-related deaths in the United Kingdom, registered in 2014. Llundain, Y Llyfrfa
(<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/bulletins/alcoholrelateddeathsintheunitedkingdom/registeredin2014>)

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) User guide to mortality statistics. Casnewydd, Y Llyfrfa
(<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/methodologies/userguidetomortalitystatisticsjuly2017>)

Ac ar gyfer Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol yn:

Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac iechyd yng Nghymru 2014, Canllaw Technegol
([https://www2.nphs.wales.nhs.uk/ProjDocs.nsf/Public/D6F2B0BFE9F03C5780257D7300359297/\\$file/AlcoholAndHealthInWales2014\(W\)_v2a.pdf?OpenElement](https://www2.nphs.wales.nhs.uk/ProjDocs.nsf/Public/D6F2B0BFE9F03C5780257D7300359297/$file/AlcoholAndHealthInWales2014(W)_v2a.pdf?OpenElement))

Jones, L and Bellis, M (2013) Updating England-specific alcohol-attributable fractions, Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl
(<http://www.cph.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/24892-ALCOHOL-FRACTIONS-REPORT-A4-singles-24.3.14.pdf>)

Mae materion cymhariaeth a chysondeb, dros amser a rhwng ardaloedd daearyddol, yn golygu bod y ddwy set o ffigurau'n cael eu defnyddio.

Atodiad C: Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon - diffiniadau

Am fanylion y ffyrdd gwahanol o fesur derbyniadau i'r ysbyty oherwydd camddefnyddio sylweddau yn gyffredinol, gweler Atodiad A. Mae'r Atodiad hwn yn ymdrin yn benodol â'r codau ICD-10 gwahanol (gweler Atodiad A) a gaiff eu defnyddio i baratoi'r ffigurau ar gyfer gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon sydd yn yr adroddiad hwn.

Mae codau ICD-10 ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon mewn nifer o gategorïau gwahanol ar draws y system godio. Cafodd nifer o ddulliau gwahanol eu defnyddio i nodi cofnodion derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau penodol a hefyd i ddarparu prif ffigurau y gellir eu cymharu'n ystyrlon dros gyfnodau amser ac ardaloedd daearyddol gwahanol.

Mae'r codau ICD-10 a gaiff eu defnyddio i ddiffinio derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn yr adroddiad hwn yn Nhabl 10. Mae'n rhoi codau mewn grwpiau yn ôl sylwedd ac mae hefyd yn cyflwyno'r diffiniadau y mae NHS Digital yn eu defnyddio, sy'n creu ystadegau cymharol ar gyfer Lloegr.

Tabl 10: Codau ICD-10 a gaiff eu defnyddio i ddiffinio derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon yn y prif safle. Mae manylion llawn codau ICD-10 yn: <http://apps.who.int/classifications/icd10/browse/2010/en>

Measure	ICD-10 codes
Any illicit drug use	F11-F16, F18, F19, T40, T424, T436
Any mental/behavioural condition (NHS Digital definition)	F11-16, F18, F19
Any poisoning by illicit drugs (NHS Digital definition)	T400-T403, T405-T409, T436
Opioids	F11, T400-T403
	(Note that although T404 includes opioids such as pethidine and tramadol which may be used illicitly, this code has been excluded in line with current NHS Digital methodology. This exclusion may be reviewed in future years.
Cannabinoids	F12, T407
Sedatives and hypnotics	F13, T408, T409
Cocaine	F14, T405
Other stimulants	F15, T436
Multiple drug use	F19
Benzodiazepines	T424

Atodiad D Marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau - diffiniadau

Mae'r ffigurau ar gyfer marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn wedi'u cymryd o ddata wedi'u casglu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Am fanylion ynghylch sut mae data marwolaethau yn cael eu casglu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gweler Atodiad B. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar ddau fesur o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau. Mae 'Marwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau' yn cynnwys pob marwolaeth lle mae'r achos sylfaenol yn cyfeirio at ICD-10 sy'n gysylltiedig â chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon (heb gynnwys alcohol a thybaco). 'Marwolaethau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau' yw'r is-set o farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau sy'n cynnwys yr holl farwolaethau lle mae codau ICD-10 F11-F16 ac F18-19 (h.y. y codau hynny sy'n cyfeirio'n benodol at gyffuriau anghyfreithlon) a'r marwolaethau eraill wedi'u codio fel gwenwyno gan gyffuriau lle caiff cyffur anghyfreithlon ei nodi ar y cofnod marwolaeth. Yn Nhabl 11, dangosir y codau ICD-10 y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu defnyddio er mwyn diffinio marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau.

Diffinnir 'cyffuriau anghyfreithlon' yn nhermau Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, y gellir ei diwygio gan yr Ysgrifennydd Cartref i ychwanegu neu ddileu cyffuriau. Ar gyfer ffigurau 2013 ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, defnyddiodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol restr o 'gyffuriau anghyfreithlon' a oedd yn cynnwys 20 o gyffuriau rheoledig newydd o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ailgyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd y ffigurau ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Newidiodd y fethodoleg newydd hon nifer y marwolaethau yng Nghymru yr ystyrir eu bod wedi'u hachosi gan gamddefnyddio cyffuriau. Er enghraifft, ar gyfer 2012 cynyddodd nifer y marwolaethau o 131, gan ddefnyddio'r hen fethodoleg, i 135. Felly, gall y ffigurau yn yr adroddiad hwn fod yn wahanol i'r ffigurau wedi'u cyflwyno mewn adroddiadau blaenorol. Yn Nhabl 12, rhoddir rhestr o sylweddau wedi'u hychwanegu at ddiffiniad 'cyffuriau anghyfreithlon' ar gyfer adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn 2013.

Tabl 11: Codau ICD-10 a gaiff eu defnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddiffinio 'marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau'.

Cyflwr	Cod
<i>Pob marwolaeth lle nodir y cyflyrau canlynol fel yr achos sylfaenol</i>	
Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol o ganlyniad i opioidau, cocên, tawelyddion neu hypnotigion, cocên, symbylyddion eraill gan gynnwys caffein, rhithbeiriau, defnydd cyffuriau lluosog	F11–F16, F19
<i>Pob marwolaeth lle nodir y cyflyrau canlynol fel yr achos sylfaenol AC y mae cyffur wedi'i reoli o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 wedi'i enwi ar y cofnod marwolaeth</i>	
Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol o ganlyniad i dddyddion	F18

Gwenwyno damweiniol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X40–X44
Hunan-wenwyno bwriadol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X60–X64
Ymosodiad gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X85
Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol, bwriad amhendant	Y10–Y14

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015) Marwolaethau Cysylltiedig â Gwenwyno gan Gyffuriau yng Nghymru a Lloegr, 2014. Llundain, Y Llyfrfa

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) Marwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru a Lloegr. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg. Casnewydd, Y Llyfrfa

Fel y disgrifir uchod, mae'r term "sylweddau seicoweithredol newydd" wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol gan yr Undeb Ewropeaidd fel cyffur narcotig neu seicotropig newydd, ar ffurf bur neu ar ffurf cymysgedd, nad yw wedi'i restru o dan y Gonfensiwn Sengl ar Gyffuriau Narcotig 1961 na'r Gonfensiwn ar Sylweddau Seicotropig 1971, ond a allai beri bygythiad i iechyd y cyhoedd sy'n debyg i'r hyn a gaiff ei achosi gan sylweddau wedi'u rhestru yn y confensiynau hynny. (Penderfyniad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 2005/387/JHA). Yn 2016, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol restr o sylweddau a gaiff eu nodi ar dystysgrifau marwolaeth yng Nghymru a Lloegr. Rhestrir y sylweddau hyn yn Nhabl 12.

Tabl 12: Sylweddau y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu rhestru'n 'sylweddau seicoweithredol newydd'.

Sylweddau seicoweithredol newydd	1-(Bensoffwran-6-yl)-propan-2-amin, GHB, 2-(1H-Indol-5-yl)-1-methylethylamine, 4-Fflworoeffedrin, 4-Fflworomethcathinone, 4-Methylamphetamine, 4-Methylethcathinone, Alpha-methyltryptamine, BZP, Cathinone, Desoxypipradrol, Fflworomethcathinone, Khat, Cyffur cyfreithlon, Mephedrone, Methiopropamine, Methoxetamine, Methylenedioxypropylone, Methylone, Canabinoid synthetig, TFMPP
---	--

Atodiad E: Cyfyngau Hyder

Mae'r disgrifiad a'r diffiniad canlynol o Gyfyngau Hyder fel y'u defnyddir ym maes iechedd y cyhoedd wedi'u cymryd o Friff Technegol 3 Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd.³⁸

Cyfyngau Hyder

Mae cyfwng hyder yn ystod o werthoedd a gaiff eu defnyddio i feintio yr amhenodolrwydd yn yr amcangyfrif o werth penodol. Yn benodol, mae'n meintio'r amhenodolrwydd sy'n deillio o amrywiad ar hap yn amcangyfrif y gwerth; nid yw'n cynnwys amhenodolrwydd sy'n deillio o wall systematig (rhagfarn). Mewn llawer o astudiaethau, samplu yw ffynhonnell yr amrywiad ar hap hwn. Hyd yn oed yn yr astudiaethau sydd wedi'u cynllunio orau bydd gwahaniaethau ar hap rhwng y grŵp sampl penodol wedi'i ddewis a'r boblogaeth darged gyffredinol.

Felly mae unrhyw fesur o'r grŵp sampl yn darparu amcangyfrif amhenodol o werth gwirioneddol y boblogaeth. Ym maes iechedd y cyhoedd, mae llawer o ddangosyddion yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei ystyried yn setiau data cyflawn ac nid samplau, e.e. cyfraddau marwolaethau yn seiliedig ar gofrestrau marwolaeth. Yn yr achosion hyn, nid yw'r amhenodolrwydd o ganlyniad i amrywiad o ran samplu ond o ganlyniad i amrywiad 'naturiol'. Ystyrir bod y dangosydd yn ganlyniad proses stocastig, h.y. un y gellir ei ddylanwadu gan y digwyddiadau ar hap sy'n gynhenid yn y byd o'n cwmpas. Mewn achosion o'r fath, dim ond un o'r setiau a allai ddigwydd o dan yr un amgylchiadau yw'r gwerth wedi'i arsylwi mewn gwirionedd. Yn gyffredinol, ym maes iechedd y cyhoedd, yr amgylchiadau neu'r broses sylfaenol sydd o ddiddordeb a dim ond amcangyfrif amhenodol o'r 'risg sylfaenol' hon y mae'r gwerth gwirioneddol yn ei roi.

Mae lled y cyfwng hyder yn dibynnu ar dri pheth:

1. Maint y sampl y mae'r amcangyfrif yn deillio ohono (neu faint y boblogaeth os yw'n deillio o set ddata gyflawn). Mae samplau mwy yn rhoi amcangyfrifon mwy manwl gywir gyda chyfyngau hyder llai.
2. Gradd yr amrywioldeb yn y ffenomen sy'n cael ei mesur. Drwy lwc, mae ffenomenau a gaiff eu gweld yn aml yn dilyn dosraniadau tebygolrwydd penodol (neu tybir eu bod yn gwneud hynny), fel y Poisson neu'r Binomial. Mae hyn yn caniatáu inni fynegi faint o amrywioldeb sydd, yn fathemategol, a'i gynnwys yn y fformiwlâu cyfwng hyder.
3. Y lefel hyder ofynnol - mae hwn yn werth mympwyol y mae'r dadansoddwr yn ei osod sy'n rhoi'r tebygolrwydd a ddymunir bod y cyfwng yn cynnwys y gwerth gwirioneddol. Ym maes meddygaeth ac iechedd y cyhoedd, yr arfer confensiynol yw defnyddio hyder o 95 y cant ond nid yw'n anghyffredin gweld dewisiadau eraill. Yng nghymuned Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd, caiff cyfyngau hyder 99.8 y cant eu defnyddio fwyfwy ochr yn ochr â chyfyngau 95 y cant er mwyn adlewyrchu'r terfynau rheoli a gaiff eu defnyddio mewn dulliau Rheoli Prosesau Ystadegol. Mae

³⁸ Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd (2008) Technical Briefing 3, Commonly Used Public Health Statistics and their Confidence Intervals, www.apho.org.uk/resource/view.aspx?RID=48457

cynyddu'r lefel hyder yn arwain at derfynau ehangach. Ar gyfer lefel hyder benodol, po ehangach yw'r cyfwng hyder, po fwyaf yw'r ansicrwydd o ran yr amcangyfrif.

Atodiad F: Cyfrifo cyfraddau poblogaeth o ran derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau a dangosyddion iechyd y cyhoedd eraill

Mae'r disgrifiad a'r diffiniad canlynol o sut mae cyfraddau poblogaeth yn cael eu cyfrifo a'u defnyddio ym maes iechyd y cyhoedd wedi'u haddasu o Friff Technegol 3 Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd.³⁹

Y mesur mwyaf sylfaenol a gaiff ei ddefnyddio ym maes iechyd y cyhoedd yw cyfrif digwyddiadau fel marwolaethau neu dderbyniadau i'r ysbyty. Fodd bynnag, er mwyn ymchwilio'n iawn i ddosbarthiad clefydau a ffactorau risg ac er mwyn gwneud cymariaethau rhwng poblogaethau gwahanol, rhaid ystyried hefyd y boblogaeth sydd mewn perygl dan sylw. Mae rhannu nifer y digwyddiadau â'r boblogaeth sydd mewn perygl a lluosï â'r rhif penodol (er enghraifft, 100,000) yn rhoi 'bras amcan o gyfradd' y digwyddiadau hyn mewn poblogaeth y gellir ei chymharu rhwng ardaloedd a allai fod â meintiau poblogaeth gwahanol iawn. Fodd bynnag, gall cyfraddau clefydau a marwolaethau amrywio'n fawr yn ôl oedran, sy'n cymhlethu unrhyw gymariaethau rhwng dwy boblogaeth sydd â strwythurau oedran gwahanol.

Er enghraifft, ystyriwch ddwy ardal A a B gyda phoblogaethau o'r un maint a bras amcan o gyfraddau marwolaethau pob oedran union yr un fath. Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos bod ganddynt brofiad marwolaeth tebyg. Tybiwch, fodd bynnag, fod gan ardal A strwythur oedran iau nag ardal B. O ystyried bod cyfraddau marwolaethau yn cynyddu gydag oedran, byddai rhywun yn disgwyl i'r boblogaeth hyn yn ardal B brofi mwy o farwolaethau. Mae'r ffaith bod gan y ddwy ardal gyfraddau yr un fath yn golygu bod yn rhaid bod gan y boblogaeth iau yn ardal A brofiad marwolaeth cymharol waeth.

Y ffordd fwyaf cynhwysfawr o gymharu profiad clefyd dwy boblogaeth yw cyflwyno a chymharu eu cyfraddau sy'n benodol i oed. Fodd bynnag, pan fydd nifer y poblogaethau sy'n cael eu cymharu yn cynyddu, buan iawn y mae maint y data y mae angen eu hystyried yn dod yn anhydrin. Yr hyn sydd ei angen yw un ffigur cryno, hawdd ei ddehongli, ar gyfer pob poblogaeth sy'n cael ei addasu i ystyried ei strwythur oedran. Mae ffigurau cryno o'r fath yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio dulliau safoni oedran.

Caiff y Boblogaeth Safonol Ewropeaidd ei defnyddio'n aml ar gyfer safoni uniongyrchol, lle mae cyfraddau sy'n benodol i oed y boblogaeth dan sylw yn cael eu cymhwyso i strwythur oedran y boblogaeth safonol. Mae hyn yn rhoi'r gyfradd gyffredinol a fyddai wedi digwydd yn y boblogaeth dan sylw pe bai ganddi'r proffil oedran safonol. Strwythur poblogaeth damcaniaethol yw hwn nad yw'n newid ac sydd yr un peth ar gyfer y ddau ryw. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio Poblogaeth Safonol Ewropeaidd 2013, a gafodd ei chyhoeddi gan Eurostat.⁴⁰

³⁹ Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd (2008) Technical Briefing 3, Commonly Used Public Health Statistics and their Confidence Intervals, www.apho.org.uk/resource/view.aspx?RID=48457

⁴⁰ Mae gwybodaeth a chanllawiau manwl ar Boblogaeth Safonol Ewropeaidd 2013 wedi'u cyhoeddi gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU: <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/user-guidance/health-and-life-events/revised-european-standard-population-2013--2013-esp-/index.html>.

Atodiad G: Defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus: diffiniadau ac amcangyfrifon o gyffredinolrwydd

Mae 'defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus' yn ddangosydd a gaiff ei ddefnyddio gan Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) ar sail adroddiadau cenedlaethol. Diffiniad 'defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus' ar gyfer yr amcangyfrifon yn yr adroddiad hwn yw 'defnyddio cyffuriau trwy chwistrellu neu ddefnydd hirdymor/rheolaidd o opioidau, cocên ac/neu amffetaminau.' Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys yn benodol defnydd hirdymor/rheolaidd o opioidau rhagnodedig fel methadon ond nid yw'n cynnwys eu defnyddio prin byth neu'n afreolaidd na defnyddio cyffuriau eraill, fel ecstasi neu ganabis.⁴¹

Mae amcangyfrif nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yn cyflwyno heriau sylweddol, gan efallai nad yw cyfran sylweddol o'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n cael ei stigmatiddio'n gymdeithasol yn hysbys i unrhyw wasanaethau ac felly efallai nad oes cofnod o'u defnydd ar gael. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae nifer o dechnegau ystadegol wedi'u datblygu. Daw'r ffigurau yn yr adroddiad hwn o astudiaeth gan ddefnyddio'r dull 'cipio-ail-gipio', sef dull sefydledig sydd wedi cael ei ddefnyddio i baratoi amcangyfrifon lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus blaenorol ar gyfer Cymru a'r DU. Mae dulliau cipio-ail-gipio yn cynnwys modelu rhyngweithiadau rhwng setiau data sy'n cynnwys y boblogaeth camddefnyddio sylweddau sy'n 'weladwy' i wasanaethau iechyd, trin, neu gyfiawnder troseddol er mwyn paratoi amcangyfrifon ystadegol ar gyfer y boblogaeth 'gudd' nad yw mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaeth. Y setiau data ffynhonnell a gafodd eu defnyddio oedd cofnodion arestiadau gan yr heddlu, lefelau ymgysylltu â rhaglenni ymyriad cyffuriau wedi'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf, asesiadau gan wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau, derbyniadau i'r ysbyty a lefelau defnyddio rhaglenni nodwyddau a chwistrellau statudol, gwirfoddol a fferyllfeydd. Mae amcangyfrifon o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus Cymru, cyn y rhai a gafodd eu cyflwyno yn adroddiad y llynedd, wedi defnyddio tair set ddata (arestiadau gan yr heddlu, asesiadau'r Gwasanaeth Prawf ac atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth). Nid ydynt, felly, yn debyg i'r amcangyfrifon wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

Y dull ystadegol traddodiadol o amcangyfrif faint o ddefnyddwyr cyffuriau sydd heb gael eu 'dal' ar unrhyw gronfa ddata yw trwy ddefnyddio dadansoddiadau log llinol, techneg sydd fel arfer yn defnyddio cyfres o fodelau gwahanol ar gyfer y data. Y model a gaiff ei ystyried y gorau trwy feini prawf penodol a gaiff ei ddefnyddio er mwyn cael amcangyfrif 'tebygolrwydd mwyaf' o ddefnyddwyr cyffuriau 'heb eu dal'.

Er bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio o hyd gan lawer o ymchwilwyr, mae dadl ar hyn o bryd ym maes amcangyfrif camddefnyddio cyffuriau ynghylch y technegau Bayesaidd wedi'u datblygu'n ddiweddar ar gyfer amcangyfrif o boblogaeth. Mae'r technegau Bayesaidd yn cyfrifo amcangyfrif o'r defnyddwyr cyffuriau heb eu dal gan ddefnyddio cyfartaledd ar draws yr holl fodelau, gan felly'n cyfrif yn ffurfiol am ansicrwydd o ran y

⁴¹ EMCDDA (2010), Statistical bulletin 2010: Problem drug use indicator – overview. Lisbon, EMCDDA. Ar gael yn https://www.emcdda.europa.eu/data/stats2023/methods/pdu_en

model mewn perthynas â'r amcangyfrif o boblogaeth.⁴² Y ffigurau wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddaw o gymhwyso technegau Bayesaidd i'r data.

⁴² King R, Bird SM, Overstall A, Hay G, Hutchinson SJ. Injecting drug users in Scotland, 2006: Listing, number, demography, and opiate-related death-rates. *Addict Res Theory* 2013; 21(3):235-246